


Ebrill 2025



Eich pensiwn: eich dewisiadau

- Meddwl am gael mynediad at eich cronfa pensiwn?
- Penderfynu sut i gymryd eich incwm ymddeol?
- Edrych o gwmpas am yr incwm gorau?

Gwneud eich arian a'ch dewisiadau pensiwn yn gliriach

Beth bynnag eich amgylchiadau, mae HelpwrArian ar eich ochr chi. Ar-lein a thros y ffôn, rydym yn cynnig arweiniad clir sy'n gyflym i'w ddarganfod, yn hawdd ei ddefnyddio ac wedi'i gefnogi gan y llywodraeth. Gallwn hefyd eich cyfeirio at wasanaethau dibynadwy, os oes angen rhagor o gymorth arnoch.

Gallwn ni eich helpu i:

- delio â dyled
- deall eich opsiynau pensiwn
- lleihau eich gwariant a chronni cynilion
- llywio digwyddiadau bywyd megis colli swydd, torperthynas, ymddeol neu brofedigaeth
- cyllidebu ar gyfer biliau neu bryniannau mawr
- dysgu am forgeisi a rhentu
- cael gwybod am fudd-daliadau a hawliadau ychwanegol.

Chwiliwch am HelpwrArian: moneyhelper.org.uk/cy

Arweiniad diduedd am ddim

ar-lein | dros y ffôn

Gan y



**Gwasanaeth
Arian a
Phensiynau**

Pwy ddylai ddarllen y canllaw hwn?

Mae'r canllaw hwn ar eich cyfer chi os ydych yn byw yn y DU a bod gennych chi gronfa bensiwn cyfraniadau diffiniedig yn y DU. Gallai hwn fod yn bensiwn gweithle neu bensiwn personol, a chaiff ei gronni o gyfraniadau dros amser.

Os nad ydych yn preswyllo yn y DU, yn bwriadu symud y tu allan i'r DU neu os oes gennych bensiwn(pensiynau) y tu allan i'r DU, dylech geisio cyngor ariannol trawsffiniol rheoledig ynghylch eich opsiynau. Os ydych yn byw dramor gyda chronfa bensiwn yn y DU, efallai y byddwch yn gymwys i gael apwyntiad Pension Wise a fydd yn egluro pethau i'w cadw mewn cof (gweler tudalen 4).

Mae'n sefydlu eich dewisiadau ar gyfer defnyddio eich cronfa (neu gronfeydd) i ddarparu incwm ymddeol a buddion ac unrhyw risgiau posibl o'r gwahanol ddewisiadau.

Mae'n trafod y gweithrediadau allweddol hefyd y bydd angen i chi eu cymryd wrth i chi nesáu at yr adeg pan fyddwch eisiau

mynediad at eich cronfa bensiwn (p'un a ydych yn ymddeol neu beidio), a sut i gael mynediad at arweiniad rhad ac am ddim gan Pension Wise – gwasanaeth diduedd a gefnogir gan y llywodraeth a fydd o gymorth i chi bwysu a mesur eich opsiynau ar gyfer cymryd eich pensiwn.

Nid yw'r canllaw yn cwmpasu cynlluniau cyfraniadau diffiniedig cyfunol na phensiynau buddion diffiniedig – a elwir yn aml yn gyflog terfynol a chyfartaledd gyrfa. Os oes gennych y math hwn o gynllun pensiwn a bod angen cymorth arnoch, siaradwch â'ch darparwr, cyflogwr neu ffoniwch ni i gael arweiniad pensiynau am ddim a diduedd ar 0800 011 3797.

Byddwch yn wyliadwrus rhag sgamiau

Wrth i chi nesáu at ymddeol, byddwch yn wyliadwrus o gwmnïau sy'n honni eu bod yn gynghorwyr ariannol cymeradwy neu'n ceisio'ch perswadio i dynnu arian o'ch pensiwn yn gynnar. Darganfyddwch sut i adnabod ac adrodd ar sgamiau pensiwn ar dudalen 29.

Cynnwys

Cynnwys	2	Sut i adnabod sgamiau pensiwn a buddsoddiad	29
Cychwyn arni – rhestr wirio	3	Egluro'r jargon	31
Pension Wise	4	Cysylltiadau defnyddiol	36
Ceisio cyngor ariannol wedi'i reoleiddio	7		
Opsiynau ar gyfer defnyddio'ch cronfa bensiwn	9		
Ymddeol yn hwyrach neu ohirio cymryd eich cronfa bensiwn.	11		
Defnyddio eich cronfa bensiwn i gael incwm gwarantedig am oes neu am gyfnod penodol	13		
Defnyddio eich cronfa bensiwn i ddarparu incwm ymddeoliad hyblyg	19		
Cymryd eich cronfa bensiwn fel nifer o gyfandaliadau	22		
Cymryd eich cronfa bensiwn mewn un taliad	25		
Cymysgu eich opsiynau	27		

Cychwyn arni – rhestr wirio

Beth i'w wneud cyn cael mynediad i'ch cronfa pensiwn

Mae'r rhestr wirio hon yn berthnasol os ydych yn ymddeol yn gyfan gwbl, yn ymddeol yn rhannol neu'n meddwl am hawlio peth o'ch cronfa pensiwn yn gynnar (yn yr achos hwn, darllenwch 'eich dyddiad ymddeol' fel 'y dyddiad yr ydych yn bwriadu cael mynediad at eich cronfa pensiwn').

- Archebwch eich apwyntiad Pension Wise am ddim o Helpwr Arian ar-lein neu drwy ffonio ar 0800 138 3944.
- Casglwch wybodaeth ynghyd ynglŷn ag unrhyw pensiwn yn seiliedig ar eich cyflog y mae gennych hawl iddo, crynodeb o unrhyw incwm arall neu fudd-daliadau'r Wladwriaeth rydych chi'n eu derbyn ac unrhyw gynilion, benthyciadau neu ddyledion sydd gennych.
- Gallwch olrhain unrhyw pensiynau coll gan ddefnyddio'r Gwasanaeth Olrhain Pensiwn. Cysylltwch â nhw ar-lein, dros y ffôn neu mewn ysgrifen. Gallwch ddysgu rhagor am y gwasanaeth rhad ac am ddim hwn yn **gov.uk/dod-o-hyd-i-fanylion-cyswllt-pensiwn**.
- Gwiriwch eich dyddiad ymddeol a maint eich cronfa neu gronfeydd pensiwn – wedi eu nodi ar eich cyfriflenni pensiwn.
- Darllenwch yr holl wybodaeth a anfonwyd atoch gan eich cynllun neu ddarparwr pensiwn – yn cynnwys yr opsiynau y gallant eu cynnig. Gofynnwch iddo esbonio unrhyw beth nad ydych yn ei ddeall.
- Gwiriwch ddyddiadau allweddol – os dymunwch chi newid eich dyddiad ymddeol, gofynnwch i'ch cynllun neu ddarparwr pensiwn a yw hyn yn bosib a gofyn pa ffioedd sy'n ddyledus ac a oes yna unrhyw derfynau amser ynghlwm â'i hysbysu.
- Gwiriwch a yw eich cynllun pensiwn yn gwarantu talu lefel benodol o incwm – a elwir yn gyfradd blwydd-dal gwarantedig (GAR) neu'n warant isafswm incwm. Os ydyw, mae hyn yn debygol o warantu incwm ymddeol cystadleuol iawn a fydd yn talu nes byddwch yn marw a dylech ystyried yn ofalus cyn ildio hyn. Dyma rywbeth y bydd angen i chi ei drafod yn eich apwyntiad Pension Wise neu gyda chynghorydd ariannol.
- Gwiriwch a oes unrhyw amodau, nodweddion arbennig, gwarantau neu ffioedd eraill a allai effeithio ar ba bryd a sut y gallwch gymryd eich pensiwn neu a fydd yn weithredol os symudwch eich pensiwn i gynllun neu ddarparwr arall.
- Dysgwch faint o Bensiwn y Wladwriaeth rydych yn disgwyl ei gael – ewch i **gov.uk/gwirio-eich-pensiwn-y-wladwriaeth**.
- Dysgwch ragor am eich opsiynau incwm ymddeoliad yn **moneyhelper.org.uk/opsiynau-incwm-ymddeol**.

Mae Pension Wise yn wasanaeth am ddim a diduedd sy'n rhoi cymorth i chi ddeall beth allwch ei wneud gydag arian eich cronfa pensiwn.

Mae'n cynnig apwyntiadau arweiniad am ddim dros y ffôn ac/neu wyneb yn wyneb i roi cymorth i chi ddeall eich opsiynau a'ch cefnogi i wneud y penderfyniad cywir. Beth bynnag fo'ch dyddiad ymddeol arfaethedig, gallwch drefnu apwyntiad os ydych yn 50 oed neu'n hŷn a bod gennych gronfa pensiwn cyfraniadau wedi'u diffinio. Rydych hefyd yn gymwys os ydych o dan 50 oed gyda salwch neu gronfa pensiwn â chyfraniadau wedi'u diffinio a etifeddwyd.

Mae gennym hefyd ganllawiau ac offer ar-lein rhad ac am ddim yn **moneyhelper.org.uk/sgwrs-pensiynau**.

Mae Pension Wise yn darparu arweiniad ar bensiynau cyfraniadau diffiniedig. Nid yw'n darparu arweiniad ar bensiynau buddion wedi'u diffinio, sy'n cynnwys cynlluniau pensiwn 'cyflog terfynol' a 'chyfartaledd gyrfa'.

Gall Pensiwn Wise eich helpu chi i:

- deall y pethau cywir i'w hystyried wrth feddwl am eich dewisiadau, fel eich cynlluniau i barhau i weithio, eich amgylchiadau personol ac ariannol, a gadael arian wedi i chi farw
- deall y gwahanol opsiynau ar gyfer cael mynediad at eich cronfa(feydd) pensiwn, a nodweddion pob un
- deall goblygiadau treth pob dewis

Awgrym da

Dim ots pa mor fawr neu fach yw eich cronfa pensiwn, rydym yn eich annog i fanteisio ar Pension Wise i'ch helpu i ddeall beth yw eich dewisiadau.

Mae'r gwasanaeth yn ddi-dduedd ac ni fydd yn argymhell gwasanaethau nac yn dweud wrthyh sut i ddefnyddio'ch cronfa pensiwn neu fuddsoddi'ch arian.

Wedi i chi gael arweiniad, os ydych chi'n glir ynghylch pa opsiwn ydych chi'n ddewis a bod hyn yn cynnwys cynnyrch incwm ymddeol, chwiliwch i gael y fargen orau i sicrhau'ch bod yn cael y cynnyrch gwerth gorau i chi. Os nad ydych yn siŵr sut i wneud hyn, neu os ydych chi'n dal yn ansicr ynghylch pa ddewis sydd orau i chi, rydym yn argymhell eich bod yn cymryd cyngor ariannol wedi ei reoleiddio.

Sut i hawlio'ch arweiniad Pensiwn Wise am ddim

Ewch i moneyhelper.org.uk/pensionwise i

- gael sesiwn arweiniad ar-lein unrhyw bryd
- trefnu apwyntiad gydag arbenigwr

Gallwch hefyd ffonio 0800 138 3944 i archebu. Rydym ar agor rhwng 9am a 5pm, o ddydd Llun i ddydd Gwener.

Paratoi tuag at eich apwyntiad

I wneud y mwyaf o apwyntiad Pension Wise byddai'n ddefnyddiol cael:

- gwerth eich cronfa neu gronfeydd pensiwn ac a oes yna warantau neu nodweddion arbennig sy'n berthnasol i'ch cronfa – gwiriwch gyfriflen eich cronfa neu gofynnwch i'ch cynllun neu ddarparwr. Os oes gennych fwy nag un cronfa pensiwn, cofiwch gasglu gwybodaeth am bob un ohonynt. Os ydych wedi colli golwg ar pensiwn, gallwch ddefnyddio'r Gwasanaeth Orlhain Pensiwn am ddim yn **gov.uk/dod-o-hyd-i-fanylion-cyswllt-pensiwn**
- amcan o faint o Bensiwn y Wladwriaeth y gallech chi ei dderbyn a phryd. I gael cyfriflen Pensiwn y Wladwriaeth ewch i **gov.uk/gwirio-eich-pensiwn-y-wladwriaeth**
- nodiadau ar eich amgylchiadau ariannol, fel eich cyflog ac unrhyw gynilion neu ddyledion perthnasol, a gwerth unrhyw fudd-daliadau rydych yn eu cael ar hyn o bryd.

Gofynnir i chi hefyd am unrhyw gyflyrau meddygol neu iechyd a allai effeithio ar eich disgwyliad oes gan y gallech chi dderbyn incwm gwell yn ystod eich ymddeoliad.

Ar ôl eich apwyntiad

Os ydych yn prynu cynnyrch a fydd yn rhoi incwm ymddeol, mae'n hanfodol eich bod yn chwilio o gwmpas. Yn ddelfrydol, gwiriwch gyda chynghorydd ariannol rheoledig cyn i chi wneud penderfyniad terfynol.

Cewch arweiniad ar sut i chwilio o gwmpas am wahanol gynhyrchion a fydd yn rhoi incwm ymddeol yn y rhannau perthnasol o'r canllaw hwn.

Trowch y dudalen i ddysgu rhagor am geisio cyngor ariannol rheoledig – yn benodol, gwerth cymryd cyngor ariannol rheoledig a sut i ddod o hyd i gynghorydd ariannol.



moneyhelper.org.uk/sgwrs-pensiynau

Nodiadau o'ch cyfarfod Pension Wise





Ceisio cyngor ariannol wedi'i reoleiddio

Ar ôl eich apwyntiad Pension Wise, efallai y bydd angen rhagor o gymorth arnoch i wneud penderfyniad terfynol.

Mae cynllunio incwm ymddeol yn gymhleth ac mae'r opsiynau sydd gennych – yn cynnwys gohirio cymryd eich pensiwn – yn amrywio yn ddibynol ar eich amgylchiadau personol. Bydd y dewisiadau a wneuch yn effeithio ar eich incwm am weddill eich bywyd. Felly, awgrymwn eich bod yn siarad â chynghorwr ariannol rheoledig wedi'ch apwyntiad Pension Wise, oni bai eich bod yn sicr eich bod yn deall pa opsiwn yw'r un cywir ar eich cyfer chi.

Os bydd rhan o'ch cronfa bensiwn yn parhau wedi'i buddsoddi (er enghraifft os dewiswch incwm ymddeol hyblyg) yna bydd y rhan fwyaf o bobl angen cymorth a chngor parhaus i reoli eu buddsoddiadau.

Mae cynghorwyr ariannol yn bobl broffesiynol, cymwys a fydd yn argymhell pa gamau gweithredu sy'n addas ar eich cyfer chi ar ôl ystyried eich amgylchiadau ariannol a phersonol cyffredinol. Cânt eu rheoleiddio gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA), ac mae'n rhaid iddynt ddilyn rheolau'r corff hwnnw. Os gwelwch yn y pen draw fod y cyngor a roddant i chi yn anaddas, gallwch wneud cwyn ac oes angen, fynd at Wasanaeth yr Ombwdsmon Ariannol.

Mae cynghorwyr ariannol yn codi ffi, ond mae eu harbenigedd yn cynnig tawelwch meddwl a gall helpu atal camgymeriadau drud. Mae seibiannau

treth ar gael i helpu gyda'u ffi – gweler *Lwfans cyngor ar bensiynau* ar y dudalen nesaf.

Cyngor annibynnol neu gyfyngedig

Gall cynghorwyr ariannol annibynnol argymhell bob mathau o gynnyrch ariannol gan yr holl ddarparwyr. Mae'n bosibl y bydd cynghorwyr ariannol sy'n cynnig 'cyngor cyfyngedig' ond yn argymhell rhai cynhyrchion neu ddarparwyr penodol. Os ydych yn defnyddio cynghorwr sy'n cynnig 'cyngor cyfyngedig', sicrhewch eich bod yn deall i beth mae'r cyfyngiad yn berthnasol.

I gael y dewis gorau o gynhyrchion incwm ymddeol, yn ddelfrydol dylech gael cynghorwr a all argymhell cynhyrchion o'r farchnad gyfan yn ei faes.

Beth yw'r gost?

Bydd cynghorydd ariannol yn codi ffi a fydd un ai'n ganran o'ch cronfa bensiwn, tâl fesul awr, neu ffi sefydlog. Gallwch dalu ymlaen llaw, neu dynnu'r ffi o'r gronfa bensiwn. Fel rheol mae'r cynghorydd yn cynnig y cyfarfod cychwynnol yn rhad ac am ddim. Bydd cynghorwyr bob amser yn rhoi dyfynbris i chi o gost eu gwasanaethau cyn i chi ymrwymo.

Lwfans cyngor ar bensiynau

Mae'r lwfans cyngor pensiynau yn gadael i chi gymryd £500 o bensiwn cyfraniadau diffiniedig i helpu i dalu am gyngor ariannol. Mae'r arian yn ddi-dreth a gallwch wneud hyn unwaith bob blwyddyn dreth, hyd at dair gwaith i gyd.

Ond nid oes rhaid i ddarparwyr pensiwn gynnig y lwfans hwn, felly bydd angen i chi wirio a yw eich un chi yn gwneud hynny.

Ceisio cymorth neu gyngor gan ddarparwr cynnyrch

Os ydych yn gwbl hyderus ynghylch pa opsiwn a chynnyrch sy'n iawn i chi, gallech fynd yn syth at ddarparwr cynnyrch. Ond gwnewch yn siŵr eich bod yn chwilio o gwmpas yn drylwyr yn gyntaf a gwnewch yn siŵr eich bod yn gofyn a ydynt yn cynnig cyngor ariannol ac argymhelliad i chi neu ddim ond gwybodaeth.

Os ydynt yn cynnig gwybodaeth yn unig, rhaid i chi fod yn hyderus bod unrhyw gynnyrch incwm ymddeol yr ydych yn ei ddewis yn addas i chi ac na allwch gael bargaen well yn rhywle arall. Ni fyddwch wedi'ch diogelu os gwelwch ymhen amser fod y cynnyrch yr ydych wedi'i brynu yn anaddas.

Os ydynt yn cynnig cyngor, cofiwch fod hyn yn debygol o fod wedi'i gyfyngu i'w gynnyrch ei hun.

Beth yw'r gost?

Os ydych yn defnyddio gwasanaeth a argymhellwyd gan ddarparwr, byddwch yn talu ffi fel y disgrifiwyd yn gynharach.

Os prynwch heb gyngor, bydd cost ei wasanaeth wedi ei gynnwys yn y dyfynbris a gewch ganddo – efallai na fydd hwn yn rhatach na cheisio cyngor ond mae'n anoddach i'w nodi. Sicrhewch eich bod yn gofyn beth mae'r cyfryngwr neu'r darparwr yn cael ei dalu am y gwasanaeth.

Awgrym da

Dewiswch gynghorwr ariannol sydd wedi'i awdurdodi a'i reoleiddio gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA) yn unig gan fod hyn yn rhoi rhai amddiffyniadau i chi.

Dod o hyd i gynghorydd ariannol

Defnyddiwch Gyfeirlyfr Cynghorwyr Ymddeoliad HelpwrArian yn moneyhelper.org.uk/cyfeiriadur-ymddeol i ddod o hyd i'r cynghorydd sy'n iawn i chi.

Bydd y cynghorwyr a restrir yn cynnig cyngor ariannol rheoledig yn seiliedig ar eich anghenion a'ch amgylchiadau. Gall hyn gynnwys argymell cynhyrchion gan ddarparwyr, gan ei gwneud yn haws i chi ddod o hyd i'r un iawn. Mae HelpwrArian yn cynnal y cyfeiriadur trwy ddefnyddio gwybodaeth yn uniongyrchol gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA) er mwyn i chi gael tawelwch meddwl eich bod bob amser yn delio â chwmni awdurdodedig a rheoledig.

Opsiynau ar gyfer defnyddio'ch cronfa bensiwn

Mae gennych chi ddewis o gael mynediad at eich cronfa bensiwn trwy un o'r dewisiadau isod, neu gyfuniad ohonynt. Yn ddibynol ar eich oed ac amgylchiadau ariannol, gallai rhai neu'r cyfan o'r opsiynau hyn fod yn addas i chi.

Eich prif ddewisiadau yw:

Ymddeol yn hwyrach neu ohirio cymryd eich cronfa bensiwn. – cadw'ch pensiwn wedi'i fuddsoddi nes eich bod am ei gymryd (gweler t11).

Defnyddio'ch cronfa bensiwn i brynu incwm gwarantedig am oes neu am gyfnod penodol – a elwir hefyd yn flwydd-dal oes neu gyfnod penodol. Mae'r incwm yn drethadwy, ond fel arfer gallwch ddewis cymryd hyd at 25% (weithiau mwy) o'ch cronfa fel cyfandaliad di-dreth untro o'r cychwyn cyntaf (gweler t13).

Defnyddio eich cronfa bensiwn i ddarparu incwm ymddeoliad hyblyg – a elwir hefyd yn dynnu pensiwn i lawr. Cymryd y swm a ganiateir i chi ei gymryd fel cyfandaliad di-dreth (fel arfer hyd at 25%) ac yna defnyddio'r gweddill i ddarparu incwm trethadwy rheolaidd (gweler t19).

Cymryd eich cronfa bensiwn fel nifer o gyfandaliadau – fel arfer, bydd y 25% cyntaf o bob swm a dynnwch o'ch cronfa'n ddi-dreth. Bydd y gweddill yn cael ei drethu (gweler t22).

Cymryd eich cronfa bensiwn mewn un taliad – fel arfer bydd 25% yn ddi-dreth ac mae'r gweddill yn drethadwy (gweler t25).

Cymysgu eich opsiynau – dewis unrhyw gyfuniad o'r uchod, gan ddefnyddio gwahanol rannau o'r gronfa neu gronfeydd ar wahân. (gweler t27).

Mae'n rhaid eich bod wedi cyrraedd yr isafswm oedran pensiwn arferol i gyrchu'ch cronfa bensiwn – 55 ar hyn o bryd, bydd hyn yn cynyddu i 57 yn 2028. Dim ond mewn amgylchiadau prin iawn (megis salwch) y byddwch yn gallu cyrchu'ch cronfa cyn 55 oed. Gwiriwch gyda'ch darparwr pensiwn.

Cipolwg ar yr opsiynau

Cofiwch y gallwch gymysgu'r opsiynau hyn. Gofynnwch am hyn yn ystod eich apwyntiad am ddim gyda Pension Wise ac yna chwiliwch am y fargen orau neu ceisiwch gyngor ariannol.

Opsiynau → Nodweddion pob opsiwn ↓	Cael incwm Gwarantedig am oes (blwydd-dal)*	Cymryd incwm ymddeoliad hyblyg	Cymryd nifer o gyfandaliadau	Cymryd y gronfa gyfan ar yr un pryd
Faint o arian parod di-dreth y gallaf ei gael?	Fel arfer 25% o'r gronfa ¹			
Incwm rheolaidd?	Ydy	Ydy ²	Nac ydy	Nac ydy
Incwm gwarantedig am oes?	Ydy	Nac ydy	Nac ydy	Nac ydy
Oes angen i mi adolygu fy nghronfa bensiwn yn rheolaidd?	Nac oes	Oes	Oes	AMH
A allai fy arian ddod i ben yn ddiweddarach ar ôl ymddeol?	Na allai	Gallai	Gallai	Gallai
A yw'n talu incwm uwch am gyflyrau meddygol?	Ydy	Nac ydy	AMH	AMH
A allaf newid fy meddwl a defnyddio fy nghronfa'n wahanol?	Na allwch	Gallwch	Gallwch ³	Na allwch
A fydd fy nghyfradd dreth yn codi pan fyddaf yn defnyddio fy nghronfa?	Mae'n dibynnu ar y swm a gymerir pan gaiff ei ychwanegu at incwm arall			
A yw rhyddhad treth ar fy nghynilion pensiwn yn cael ei effeithio?	Nac ydy ⁴	Ydy – unwaith y byddwch yn dechrau tynnu incwm ⁵	Ydy ⁵	Ydy ⁵

*Os byddwch yn dewis incwm gwarantedig am gyfnod penodol, bydd incwm wedi ei warantu ar gyfer y cyfnod yn unig, nid am oes.

- Yn berthnasol i'r swm o'ch cronfa bensiwn y dewiswch ei ddefnyddio i brynu'r cynnyrch hwn. Os byddwch yn defnyddio'ch cronfa i gyd i brynu'r cynnyrch, ac yn peidio cymryd unrhyw arian di-dreth ar y pryd, ni allwch fynd yn ôl i'w gymryd yn ddiweddarach. Sylwer gyda rhai polisïau hyn efallai y bydd cyfradd uwch o arian di-dreth ar gael. Yr uchafswm arian parod di-dreth y gallwch ei gymryd yw £268,275 (oni bai bod amddiffyniadau blaenorol yn eu lle).
- Os ydych chi'n dewis yr opsiwn hwn, gallwch gymryd incwm pan fydd hynny'n gyfleus i chi, er bydd y rhan fwyaf o bobl yn ei ddefnyddio i gymryd incwm rheolaidd.
- Mae'r rhan nad ydych wedi ei dynnu allan yn parhau i gynyddu'n ddi-dreth a gellir ei ddefnyddio i brynu unrhyw gynnyrch incwm ymddeol.
- Os cymerwch incwm o flwydd-dal cyfnod penodol neu flwydd-dal oes a allai ostwng (fel blwydd-dal cysylltiedig â buddsoddiad), yna mae rhyddhad treth wedi'i gyfyngu gan y Lwfans Blynyddol Prynu Arian (gweler tudalen 34).
- Mae rhyddhad treth yn gyfyngedig i gyfraniadau hyd at yr isaf o 100% o'ch cyflog neu £10,000 y flwyddyn (blwyddyn dreth 2025/26). Gall rheolau gwahanol fod yn berthnasol pan fyddwch yn cymryd y gronfa gyfan ar yr un pryd ac mae'n werth llai na £10,000.

Gweler tudalen 31 *Egluro'r jargon* i gael rhagor o wybodaeth am y lwfansau uchod.

Ymddeol yn hwyrach neu ohirio cymryd eich cronfa bensiwn.

Nid oes rhaid i chi gymryd eich cronfa dim ond oherwydd eich bod wedi cyrraedd eich oedran ymddeol dewisol neu 55 oed. Po hwyraf y cymerwch eich arian, yr uchaf yw eich incwm posibl, oherwydd gallai'r arian yn eich cronfa barhau i dyfu a bydd angen parhau am gyfnod byrrach.

Sut mae'n gweithio

Bydd eich cronfa bensiwn yn parhau i dyfu'n ddi-dreth hyd nes y bydd ei hangen arnoch – gan roi mwy o incwm i chi o bosib unwaith y dechreuwch gymryd arian allan ohoni.

Gallwch chi (a'ch cyflogwr) barhau i wneud cyfraniadau, fodd bynnag mae cyfyngiadau ar faint y gallwch chi ei gynilo bob blwyddyn a thros oes, ac yn dal i gael rhyddhad treth.

Yn y rhan fwyaf o achosion, gallwch gael gostyngiad treth bob blwyddyn ar gyfraniadau pensiwn hyd at 75 oed ar hyd at 100% o'ch enillion trethadwy. Fodd bynnag, mae terfyn cyffredinol o £60,000 ar gyfanswm cyfraniadau mewn blwyddyn, gan gynnwys rhyddhad treth ac unrhyw gyfraniadau cyflogwr. Gelwir hyn yn lwfans blynyddol. Os ydych yn ennill cyflog uchel iawn efallai y bydd eich lwfans blynyddol yn is. I ddysgu rhagor, gweler *Lwfans blynyddol* (t31), a *Lwfans blynyddol graddedig* (t35).

Os ydych yn ennill llai na £3,600 y flwyddyn, gallwch dalu hyd at £2,880 i mewn i'ch pensiwn bob blwyddyn dreth a chael budd o ryddhad treth o hyd.

Pethau i'w hystyried

Os nad ydych chi angen yr arian yn eich cronfa bensiwn ac nad ydych chi wedi gwneud cynlluniau pendant ar gyfer ymddeoliad, yna dylid ystyried yr opsiwn i 'ymddeol yn ddiweddarach' yn ofalus. Po fwyaf fyddwch chi'n oedi, yr uchaf fydd

eich incwm ymddeol posibl, gan y gallai'r arian rydych wedi'i gynilo yn eich pensiwn barhau i dyfu.

Fodd bynnag, gall arian sydd wedi'i fuddsoddi hefyd ostwng mewn gwerth, felly gwnewch yn siŵr eich bod yn adolygu eich cynilion yn rheolaidd ac, os oes angen, cael cyngor gan gynghorwr ariannol wedi'i reoleiddio. Bydd rhaid i chi dalu am y cyngor, ond gallai arbed dipyn o arian (a gofid) i chi yn yr hirdymor.

Bydd costau parhaus ar gyfer gadael eich cronfa lle y mae – ond mae costau ynghlwm wrth bob opsiwn, felly peidiwch â gadael i hyn eich digalonni. Dylai'ch darparwr gadarnhau'r holl gostau y byddwch yn eu talu os byddwch yn gadael eich cronfa bensiwn wedi'i buddsoddi gydag ef felly gwnewch yn siŵr eich bod yn adolygu'r rhain yn rheolaidd i wirio bod y darparwr yn dal i gynnig gwerth am arian.

Cofiwch wirio gyda'ch cynllun neu ddarparwr pensiwn a oes unrhyw gyfyngiadau neu ffioedd am newid eich dyddiad ymddeol, a'r drefn a'r amserlen ar gyfer ei hysbysu.

Gwiriwch hefyd na fyddwch yn colli unrhyw warantau incwm gwerthfawr os gohiriwch ddyddiad eich ymddeoliad.

Os ydych chi dros oedran Pensiwn y Wladwriaeth, gallai arian mewn pensiwn effeithio ar eich hawl i fudd-daliadau hyd yn oed os na fyddwch yn cymryd unrhyw arian allan. Nid yw gadael cronfa wedi'i buddsoddi yn effeithio ar hawl i Bensiwn y Wladwriaeth.

Os dymunwch i'ch cronfa barhau wedi'i buddsoddi ar ôl i chi gyrraedd 75 oed, bydd angen i chi wirio gyda'ch cynllun pensiwn neu'ch darparwr i weld a fyddant yn caniatáu hynny. Os na, efallai y bydd angen i chi drosglwyddo i gynllun neu ddarparwr arall a fydd yn caniatáu hynny.

Nid yw pob cynllun a phob darparwr pensiynau yn eich caniatáu i ohirio. Os ydych am ohirio ond nad yw'r dewis yma ar gael i chi, chwiliwch o gwmpas ac yn ddelfrydol, ceisiwch gyngor ariannol cyn symud eich pensiwn (gweler t7).

Beth sy'n digwydd pan fyddwch yn marw

Pan fyddwch yn marw, bydd unrhyw gronfeydd pensiwn nas defnyddiwyd fel arfer yn cael eu trosglwyddo i'ch buddiolwyr.

Bydd yr arian yn aros yn ddi-dreth tra bydd yn dal i gael ei fuddsoddi ond efallai y bydd eich buddiolwyr yn talu treth pan fyddant yn cymryd yr arian. Mae hyn fel arfer yn dibynnu ar yr oedran y byddwch yn marw.

Hyd at 5 Ebrill 2027, fel arfer ni fydd gwerth eich pensiwn yn cael ei gyfrif wrth gyfrifo Treth Etifeddiant os yw darparwr eich pensiwn yn dewis i bwy i'w dalu, gan gynnwys os yw'n dilyn eich ffurflen mynegi dymuniad.

O 6 Ebrill 2027, disgwylir y bydd cyfrifiadau Treth Etifeddiant yn cynnwys y rhan fwyaf o gronfeydd pensiwn a buddion marwolaeth nas defnyddiwyd.

Os byddwch yn marw cyn eich bod yn 75 oed:

Bydd eich cronfa bensiwn yn trosglwyddo yn ddi-dreth i'ch buddiolwr a enwebwyd, cyn belled ag y telir yr arian cyn pen dwy flynedd ers i'r darparwr gael gwybod am eich marwolaeth. Os yw'r cyfandaliad yn fwy na'r cyfandaliad a'r lwfans budd-dal marwolaeth (LSDBA), bydd eich buddiolwr fel arfer yn talu Treth Incwm ar y swm dros y lwfans. Mae'r LSDBA yn £1,073,100 i'r rhan fwyaf o bobl.

Os yw'n cael ei dalu wedi'r terfyn dwy flynedd, ychwanegir yr arian at incwm arall y buddiolwr a'i drethu ar y gyfradd briodol.

Os byddwch yn marw yn 75 oed neu hŷn:

Pan dynnir yr arian (cyfandaliad neu incwm) caiff ei ychwanegu at incwm y buddiolwr a'i drethu ar y gyfradd(au) Treth Incwm priodol. Fodd bynnag, os nad yw'r buddiolwr yn unigolyn ond ei fod, er enghraifft, yn gwmni neu ymddiriedolaeth, bydd unrhyw gyfandaliad yn cael ei drethu ar 45%.

Defnyddio eich cronfa bensiwn i gael incwm gwarantedig am oes neu am gyfnod penodol

Gelwir cynhyrchion incwm gwarantedig hefyd yn flwydd-daliadau. Gallwch ddewis prynu un a fydd yn parhau cyn hired ag y byddwch yn byw (blwydd-dal oes) neu am gyfnod penodol (blwydd-dal cyfnod penodol).

Sut mae'n gweithio

Fel arfer gallwch gymryd hyd at 25% o'ch cronfa bensiwn fel cyfandaliad untro di-dreth, ar yr amod bod y cyfanswm yn llai na'r lwfans cyfandaliad (LSA) – £268,275 i'r rhan fwyaf o bobl (gweler t33).

Yna gallwch ddefnyddio rhywfaint – neu'r cyfan – o'r gweddill i brynu incwm gwarantadwy, trethadwy (gweler t16). Gelwir hyn yn flwydd-dal a gall naill ai dalu allan am weddill eich oes neu am gyfnod penodol.

Bydd y swm a gewch yn dibynnu ar y cyfraddau blwydd-dal ar y pryd, ond fel arfer byddwch yn cael incwm uwch po hynaf yr ydych chi. Fel arfer gallwch ddewis cael eich talu bob mis, yn flynyddol neu bob tri neu chwe mis.

Opsiynau incwm gydol oes

Mae cynnyrch incwm gydol oes gwarantedig yn fwy cyfarwydd fel blwydd-daliadau oes. Mae sawl un i ddewis rhyngdynt:

Sengl neu ar y Cyd: gallwch ddewis incwm ar eich cyfer chi yn unig sy'n stopio pan fyddwch yn marw (sengl), neu un sydd hefyd yn darparu incwm ar gyfer eich cymar, partner sifil neu fuddiolwr enwebedig arall wedi i chi farw (ar y cyd). Bydd incwm ar y cyd fel arfer yn is gan ei fod wedi'i gynllunio i dalu am gyfnod hirach.

Gwastad neu'n cynyddu: gallwch ddewis incwm sy'n sefydlog ar yr un swm trwy gydol eich oes (gwastad) neu un sy'n dechrau'n is ond sy'n codi dros amser gan swm penodol neu gan chwyddiant (yn cynyddu).

Cyfnod gwarant: incwm gwarantedig am gyfnod penodol, hyd yn oed os byddwch yn marw cyn iddo ddod i ben. Er enghraifft, os byddwch yn dewis cyfnod gwarant o ddeng mlynedd ac yn marw wedi dwy flynedd, bydd taliadau yn parhau i fuddiolwr enwebedig am wyth mlynedd.

Amddiffyniad gwerth: pan fyddwch yn marw, os yw'r incwm a gawsoch o'ch blwydd-dal yn is na'r swm a dalwyd gennych, bydd eich buddiolwr yn cael y gwahaniaeth fel cyfandaliad. Felly os taloch £50,000 a dim ond £30,000 gawsoch yn ôl fel incwm erbyn i chi farw, byddai £20,000 yn cael ei dalu i'ch buddiolwr. Byddech fel arfer yn dewis un math o amddiffyniad – felly **naill ai** cyfnod gwarantedig neu amddiffyniad gwerth.

Efallai y byddwch yn gallu cyfuno'r dewisiadau hyn, felly er enghraifft incwm ar y cyd sy'n cynyddu yn unol â chwyddiant. Mae eich dewisiadau yn effeithio ar faint o incwm y gallwch ei gael, a faint fydd yr incwm hwnnw'n ei gostio.

Hefyd gall ble rydych yn byw pan ydych yn prynu'r blwydd-dal effeithio ar faint o incwm a gewch.

Byddwch yn onest – a chael incwm uwch

Os ydych chi'n ysmegu, ar feddyginiaeth neu os oes gennych chi gyflwr meddygol, efallai y byddwch yn gymwys i gael incwm gwarantedig 'uwch' (a elwir hefyd yn flwydd-dal 'uwch', 'amharus' neu 'ffordd o fyw'). Mae'r rhain yn dueddol o dalu incwm uwch oherwydd eu bod yn disgwyl talu allan dros gyfnod byrrach o amser. Optiwch i mewn i gwestiynau iechyd a ffordd o fyw bob amser a'u hateb yn onest. Gallai hyn olygu y gallwch gael incwm uwch, hyd at 50% yn fwy mewn rhai achosion.

Opsiynau incwm gwarantedig tymor penodol

Yn hytrach nag optio am incwm gwarantedig wedi'i dalu am oes, gallwch ddewis iddo gael ei dalu am gyfnod penodol rhwng tri a 25 mlynedd (a elwir hefyd yn flwydd-dal cyfnod penodol).

Gallwch gael dyfynbrisiau lluosog i weld faint fydd symiau gwahanol o incwm a chyfnodau amser gwahanol yn ei gostio. Dim ond ychydig o ddarparwyr cynnyrch incwm gwarantedig cyfnod penodol sydd ar gael, felly mae'n werth gwirio gyda phob un gan fod ganddynt gyfraddau gwahanol. Gallwch gael dyfynbrisiau ar gyfer cynhyrchion oes gwarantedig a chynhyrchion incwm gwarantedig cyfnod penodol trwy ddefnyddio ein tablau cymharu moneyhelper.org.uk/incwm-gwarantedig.

Gyda chynnyrch incwm gwarantedig cyfnod penodol, gallwch hefyd ddewis cael swm arian parod wedi ei ddychwelyd ar ddiwedd y cyfnod. Gelwir hyn yn 'werth aeddfedu'. Gallwch naill ai ddewis faint rydych ei eisïau yn ôl, neu bydd

y darparwr(wyr) yn cyfrifo hyn ar eich cyfer yn dibynnu ar faint o'ch cronfa bensiwn rydych yn ei ddefnyddio a/neu faint o incwm rydych ei eisïau.

Gofynnwch bob amser i bob darparwr beth fyddai'n digwydd pe byddech yn marw cyn diwedd y cyfnod penodol. Bydd llawer yn parhau i dalu'r incwm i'ch buddiolwyr, ond gall amrywio.

Cynhyrchion incwm cysylltiedig â buddsoddiadau

A'r rheiny'n cael eu galw hefyd yn flwydd-daliadau cysylltiedig â buddsoddiadau, mae gan y cynhyrchion hyn ragor o risg na chynnyrch incwm gwarantedig gan fod eich incwm yn codi a gostwng yn unol â gwerth y buddsoddiadau a ddewiswch pan brynwch y cynnyrch. Gallwch ddewis cael eich talu am gyfnod penodol neu am oes, ond nid yw'r swm a gewch wedi'i warantu.

Mae rhai cynnyrch yn gadael i chi newid eich opsiynau buddsoddi neu gymryd taliadau is yn hwyrach.

Pethau i'w hystyried

A yw bod yn gaeth i flwydd-dal yn addas i chi?

Mae cynhyrchion incwm gwarantedig (blwydd-daliadau) yn darparu incwm rheolaidd am oes neu am gyfnod penodol, felly maent yn opsiwn da os ydych eisiau tawelwch meddwl neu os ydych yn poeni y bydd eich arian yn dod i ben.

Ond unwaith y byddwch wedi prynu cynnyrch incwm gwarantedig, ychydig iawn o amser sydd gennych i newid eich meddwl – felly meddyliwch yn ofalus cyn ymrwymo.

Os ydych chi'n ansicr ynghylch ymrwymo i gynnyrch incwm oes gwarantedig nawr, fe allech chi ddefnyddio opsiwn arall i ddechrau. Er enghraifft, gallech brynu incwm cyfnod penodol a newid i incwm gydol oes pan ddaw i ben.

Disgwyliad oes

Os yw eich disgwyliad oes yn isel, efallai nad cynnyrch incwm oes gwarantedig yw'r dewis gorau ar eich cyfer chi.

Cyfradd blwydd-dal gwarantedig

Roedd rhai polisiâu pensiwn hŷn yn cynnig cyfradd incwm gwarantedig pan fyddwch yn ymddeol (a elwir yn gyfradd incwm gwarantedig neu GAR). Os yw eich polisi pensiwn yn cynnwys y dewis hwn, mae'n fudd gwerthfawr ac fe allai fod yn anodd curo hynny ar y farchnad – ond cofiwch chwilio am fargen well serch hynny.

Dylai eich darparwr ddweud wrthyfch os oes gennych gyfradd blwydd-dal gwarantedig, a sut mae'n cymharu â'r cyfraddau y gallech eu cael mewn mannau eraill.

Pwyntiau allweddol

- Nid oes rhaid i chi brynu cynnyrch incwm gwarantedig eich darparwr presennol – mae llawer o bobl yn cael gwell incwm ymddeol gan ddarparwr gwahanol.
- Cymerwch eich amser a chwilio o gwmpas.
- Gwnewch yn siŵr eich bod yn gwirio a allech gael incwm gwell oherwydd eich iechyd neu ffordd o fyw – a elwir yn 'flwydd-dal uwch'.
- Gofynnwch a yw eich darparwr yn cynnig 'cyfradd blwydd-dal gwarantedig' – os yw'n gwneud hynny, mae'n debygol o gynnig incwm cystadleuol iawn, ac efallai na fyddwch am ei golli.

Costau byw

Ystyriwch a ddylech gymryd cynnyrch sy'n darparu incwm cynyddol. Gall chwyddiant (neu'r cynnydd cyffredinol ym mhris nwyddau a gwasanaethau gydag amser) leihau eich safon byw yn sylweddol gydag amser.

Darparu ar gyfer dibynnyddion

A hefyd meddylwch yn ofalus a oes angen i chi ddarparu incwm ar gyfer eich partner neu ddibynnydd arall ar eich marwolaeth.

Cyfandaliad di-dreth

Os prynwch incwm gwarantedig gydag arian o gronfa bensiwn a ddefnyddiwyd eisoes gennych ar gyfer opsiwn incwm arall (e.e. i ddarparu incwm ymddeol hyblyg – gweler tudalen 19), ni allwch gymryd cyfandaliad di-dreth arall – hyd yn oed os na ddewisoch i gymryd cyfandaliad di-dreth gyda'r opsiwn arall.

Cymharu cynhyrchion

Nid yw pob cynllun a phob darparwr pensiynau yn cynnig cynnyrch incwm gwarantedig neu gyfnod penodol. Efallai y bydd rhai yn cynnig un math yn unig, neu'n cynnig prynu un ar eich rhan.

Os yw'ch darparwr yn cynnig dyfynbris i chi am incwm gwarantedig gydol oes, yna rhaid iddo hefyd roi dyfynbris arall i chi o'r farchnad agored i gymharu.

Treth y byddwch yn ei thalu

Bydd rhaid i chi dalu treth ar yr incwm a dderbyniwch, yn yr un modd ag y byddwch yn talu treth ar eich cyflog. Mae faint rydych yn ei dalu yn dibynnu ar gyfanswm eich incwm a chyfradd(au) Treth Incwm.

Bydd eich darparwr yn tynnu treth o'ch incwm cyn i chi ei dderbyn – gelwir hyn yn TWE (Talu wrth Ennill). Gan na fyddant yn gwybod faint yw eich incwm cyffredinol, byddant yn defnyddio cod treth brys i ddechrau. Golyga hyn y gallech dalu gormod o dreth yn gychwynnol a gorfod hawlio'r arian yn ôl – neu efallai na fyddwch wedi talu digon o dreth os bydd gennych chi ffynonellau eraill o incwm.

Rhyddhad treth ar gynilion pensiwn y dyfodol

Os prynwch flwydd-dal gydol oes gwarantedig, nid yw eich lwfans blynyddol ar gyfer rhyddhad treth ar gynilion pensiwn fel arfer yn cael ei effeithio. Y terfyn yw 100% o'ch enillion, hyd at £60,000 ar gyfer y rhan fwyaf (gweler t31).

Ond os byddwch yn prynu blwydd-dal gydol oes heb incwm gwarantedig – fel blwydd-dal sy'n gysylltiedig â buddsoddiad – neu flwydd-dal cyfnod penodol, efallai y byddwch yn sbarduno'r lwfans blynyddol prynu arian (MPAA). Mae hyn yn lleihau'r swm y gallwch ei dalu i mewn i bensiwn cyfraniad diffiniedig a chael budd o ryddhad treth i £10,000 y flwyddyn (gweler t34).

Buddion

Gallai'r incwm a/neu arian parod di-dreth a gynhyrchir gan eich cynnyrch incwm gwarantedig effeithio ar eich hawl i fudd-daliadau nawr neu yn ddiweddarach mewn bywyd. I ddysgu sut all incwm neu gynilion effeithio ar fudd-daliadau'r Wladwriaeth ewch i moneyhelper.org.uk/sut-mae-incwm-yn-effeithio-budd-daliadau.

Beth sy'n digwydd pan fyddwch yn marw

Os oes gennych chi gynnyrch incwm gwarantedig oes sengl a dim nodweddion eraill, bydd eich pensiwn yn dod i ben pan fyddwch chi'n marw. Fel arall, mae'r rheolau treth yn amrywio ar eich oed yn unol â'r hyn a ddangosir isod.

Os byddwch yn marw cyn eich bod yn 75 oed:

- Bydd Incwm o **gynnyrch incwm gwarantedig ar y cyd** yn cael ei dalu i'ch dibynnydd neu fuddiolwr arall a enwebwyd yn ddi-dreth am weddill eu hoes.
- Os byddwch yn marw o fewn **cyfnod gwarant** (gweler t13) mae'r taliadau sy'n weddill yn trosglwyddo'n ddi-dreth i'ch buddiolwr enwebedig, yna'n dod i ben pan ddaw'r cyfnod gwarant i ben.
- Os bydd cyfandaliad yn ddyledus o **gynnyrch incwm oes gwarantedig a ddiogelir** (gweler t13), fel arfer telir yn ddi-dreth. Fel arfer bydd eich buddiolwyr ond yn talu Treth Incwm ar unrhyw symiau uwch na'r cyfandaliad a lwfans budd-dal marwolaeth (LSDBA).

Dyma'r uchafswm o arian parod di-dreth y gellir ei dynnu o'ch holl bensiynau cyn ac ar ôl i chi farw. I'r rhan fwyaf o bobl, mae'r LSDBA yn £1,073,100.

Peidiwch ag edrych ar y dyfyniadau y mae eich darparwr eich hun yn eu cynnig yn unig. Chwiliwch o gwmpas i weld a allwch chi gael bargaen well gyda darparwr arall. Mae llawer o bobl yn gwneud hynny. Rydym yn argymhell yn gryf eich bod yn cael cyngor ariannol cyn gwneud penderfyniad terfynol.

Dysgwch ragor am y gwahanol fathau o gynnyrch incwm gwarantedig yn moneyhelper.org.uk/blwydd-daliadau.

Os byddwch yn marw yn 75 oed neu hŷn:

- Bydd Incwm o **gynnyrch incwm gwarantedig ar y cyd** neu **gyfnod gwarant parhaus** yn cael ei ychwanegu at incwm cyffredinol y buddiolwr a'i drethu ar y gyfradd Treth Incwm briodol.
- Bydd taliadau ar y cyd yn dod i ben pan fydd eich dibynnydd neu fuddiolwr arall yn marw a bydd unrhyw **daliadau cyfnod gwarant** yn dod i ben pan ddaw'r cyfnod gwarant i ben.
- Bydd unrhyw gyfandaliad sy'n ddyledus oddi wrth **gynnyrch incwm gwarantedig a ddiogelir am werth** yn cael ei ychwanegu at incwm cyffredinol y buddiolwr a'i drethu ar y gyfradd Treth Incwm briodol.
- Hyd at Ebrill 2027, bydd cyfandaliadau ddyledus o **gynnyrch incwm gwarantedig a ddiogelir am werth** fel arfer yn disgyn y tu allan i'ch ystâd at ddibenion Treth Etifeddiant.

Chwilio o gwmpas

Nid yw pob cynllun a darparwr pensiwn yn cynnig cynhyrchion incwm gwarantedig. Hefyd, efallai na fydd y rhai sy'n gwneud hynny'n cynnig pob math. Mae'n ofynnol i'ch darparwr roi dyfynbris cymharol i chi a gofyn rhai cwestiynau ychwanegol i chi i ddarganfod a allech fod yn gymwys i gael incwm uwch – ond mae'n wybodaeth gyfyngedig iawn o hyd.

I chwilio am gymhariaeth wirioneddol o'r hyn sydd ar gael, gallwch:

- Cymharu cynhyrchion incwm gwarantedig (blwydd-daliadau) gan ddefnyddio'r offeryn cymharu blwydd-daliadau Helpwr Arian yn **moneyhelper.org.uk/incwm-gwarantedig**.
- Defnyddio brocer blwydd-daliadau a fydd yn casglu'r dyfynbrisiau ar eich rhan. Ond byddwch yn ofalus gan nad yw'r rhan fwyaf yn cynnig cyngor nac yn dweud wrthyfych pa flwydd-dal yw'r un gorau i chi. Chi sy'n gwneud y penderfyniad ac os dewiswch yr un anghywir ni allwch wneud cwyn na chael iawndal.
- Siarad â Chynghorydd ariannol wedi'i reoleiddio. Bydd cynghorydd ariannol hefyd yn casglu dyfynbrisiau i chi ond, yn wahanol i frocer, bydd yn argymhell y cynnyrch mwyaf addas sy'n bodloni'ch anghenion a'ch amgylchiadau penodol. Bydd yn rhaid i chi dalu am y cyngor ond gallwch ddarganfod yn gyntaf faint fydd y cyngor yn ei gostio cyn ymrwymo (gweler t7).

Defnyddio eich cronfa bensiwn i ddarparu incwm ymddeoliad hyblyg

Gallwch symud rhywfaint (neu'r cyfan) o'ch cronfa bensiwn i gynnyrch incwm ymddeoliad hyblyg, a elwir yn 'bensiwn tynnu i lawr'. Nid yw'r incwm fel arfer wedi'i warantu ond mae gennych hyblygrwydd dros y swm y gallwch ei dynnu a pha mor aml.

Sut mae'n gweithio

Mae cynnyrch incwm ymddeol hyblyg yn eich galluogi i gymryd eich incwm ar adegau sy'n addas i chi – e.e. yn fisol, chwarterol neu'n flynyddol. Neu, fe allech chi gymryd symiau fel a phrydrydych chi eu heisiau. Gallwch newid eich meddwl ynghylch y swm a gymerwch a pha mor aml. Gallwch ddechrau cymryd eich incwm ar unwaith neu aros tan ddyddiad hwyrach.

Fel arfer gallwch gymryd hyd at 25% o'ch cronfa bensiwn fel cyfandaliad untro di-dreth, ar yr amod bod y cyfanswm yn llai na'r lwfans cyfandaliad (LSA) – £268,275 i'r rhan fwyaf o bobl (gweler t33).

Yna gallwch fuddsoddi'r gweddill mewn cynnyrch incwm ymddeoliad hyblyg. Gelwir hyn yn tynnu pensiwn i lawr ac mae'n golygu y gallai'ch cronfa sy'n weddill fynd i fyny neu i lawr mewn gwerth nes i chi gymryd yr arian.

Bydd unrhyw arian a gymerwch yn incwm trethadwy (gweler t21).

Yn dibynnu ar y math o gynllun pensiwn sydd gennych, efallai y bydd angen i chi drosglwyddo eich holl gronfa bensiwn i gynnyrch incwm hyblyg newydd cyn y gallwch gymryd unrhyw gyfandaliad di-dreth. Os nad yw eich darparwr pensiwn yn cynnig cynnyrch incwm hyblyg, yna yn sicr dyma beth fydd yn digwydd.

Fodd bynnag, efallai y bydd rhai darparwyr pensiwn yn talu'ch cyfandaliad di-dreth ac yna addasu'ch cynllun pensiwn presennol yn gynnyrch incwm hyblyg. Gallai hyn yn ymddangos yn llai cymhleth ac yn haws, ond bydd yn golygu na fyddwch wedi chwilio am y fargen orau sydd ar gael i'w chymharu â chynnyrch eich darparwr pensiwn. Gweler *Pam ei bod yn bwysig cael cyngor* isod am ragor o wybodaeth

Pam ei bod yn bwysig cael cyngor

Hyd yn oed os ydych am gyrchu'ch arian parod di-dreth am y tro, mae'n rhaid i chi benderfynu beth i'w wneud gyda'r 75% arall o'ch cronfa bensiwn o hyd. Os na wnewch chi, yna mae'n debygol y bydd yn golygu diffyg yng nghynnyrch tynnu i lawr eich darparwr presennol. Efallai mai cynnyrch eich darparwr presennol yw'r un gorau i chi, ond ni fyddwch yn gwybod oni bai eich bod wedi'i gymharu â chynhyrchion eraill ar y farchnad. Er enghraifft, efallai y bydd cynhyrchion eraill sydd â thaliadau is, dewis buddsoddi ehangach, neu nodweddion mwy hyblyg. Er mwyn eich helpu i chwilio o gwmpas, rydym yn awgrymu eich bod yn gweld cynghorydd ariannol rheoledig (gweler t7). Gall cynghorydd chwilio'r farchnad am y cynnyrch gorau i chi a'ch helpu i benderfynu ar eich dewis o gronfeydd buddsoddi. Os na chymerwch gyngor a'ch bod yn cael cynnyrch anaddas yn y pen draw, mae'n annhebygol y byddwch yn gallu gwneud cwyn.

Mae gan gynlluniau pensiwn gwahanol a darparwyr gwahanol brosesau gwahanol felly cofiwch drafod hynny gyda'ch cynllun neu'ch darparwr cyn i chi benderfynu beth rydych chi am ei wneud.

Buddsoddi eich cronfa bensiwn

Bydd eich darparwr yn gofyn i chi sut rydych chi am fuddsoddi'ch cronfa sy'n weddill pan fyddwch yn symud i mewn i gynnyrch incwm hyblyg. Bydd angen i chi naill ai ddewis eich buddsoddiadau eich hun (fel rhai sy'n cyfateb i'ch agwedd at risg), neu bydd rhai darparwyr yn cynnig dewis o opsiynau buddsoddi parod syml i chi. Mae'r rhain yn gysylltiedig â'ch cynlluniau ymddeol ac fe'u gelwir yn llwybrau buddsoddi.

Oni bai eich bod chi'n fuddsoddw'r hyderus iawn mae'n werth ystyried cael cymorth gan gynghorwr ariannol rheoledig gyda hyn. Bydd yn rhaid i chi dalu ffi cynghorwr, ond gallai hyn arbed arian a phryder i chi yn yr hirdymor.

Pethau i'w hystyried

Yn wahanol i gynnyrch incwm gwarantedig (blwydd-dal), nid yw'r incwm ymddeol a gewch o gynnyrch incwm hyblyg wedi'i warantu, felly bydd angen i chi feddwl yn ofalus faint rydych yn ei dynnu.

Mae angen cynllunio'n ofalus i benderfynu faint o incwm y gallwch fforddio ei gymryd – mae'n dibynnu ar faint eich cronfa bensiwn, y cyfnod o amser y bydd ei angen arnoch i ddarparu incwm, perfformiad y cronfeydd, pa ffynonellau incwm eraill sydd gennych, ac a ydych am ddarparu ar gyfer dibynnydd neu rywun arall ar ôl i chi farw.

Mae'n dibynnu hefyd am ba hyd y byddwch chi fyw ac nid oes llawer o bobl yn ystyried hyn yn ddigon difrifol. Gallai'ch incwm

ymddeol leihau neu hyd yn oed ddod i ben os cymerwch chi ormod o arian yn rhy fuan a dechrau gwagio'r arian a fuddsoddwyd gennych yn wreiddiol. Os bydd marchnadoedd stoc yn gostwng, bydd angen i chi addasu faint o incwm rydych chi'n ei gymryd.

Gall cynghorydd ariannol wedi ei reoleiddio roi cymorth i chi gyda hyn.

Bydd yr arian a adewch yn eich cronfa bensiwn yn parhau i gael ei fuddsoddi. Pan gaiff ei dynnu allan caiff ei gyfrif fel eich enillion ar gyfer Treth Incwm. Efallai y byddwch yn symud i fand treth uwch os cymerwch symiau mawr, felly cadwch olwg ar faint yr ydych yn ei gymryd bob blwyddyn dreth.

Pwyntiau allweddol

- Nid oes rhaid i chi aros gyda chynnyrch incwm hyblyg eich darparwr presennol. Gallai darparwyr eraill gynnig mwy o nodweddion, ystod ehangach o fuddsoddiadau neu daliadau is.
- Cymerwch eich amser a chwilio o gwmpas. Nid yw'n hawdd cymharu'r cynhyrchion hyn ac efallai y bydd angen help arnoch gan gynghorydd ariannol rheoledig i gael y fargen orau. Gall ein hofferyn llwybrau buddsoddi eich helpu i ddeall a chymharu eich opsiynau: moneyhelper.org.uk/cy/pathways.
- Meddylwch yn ofalus am ba mor hir y mae angen i'ch cronfa bensiwn barhau cyn penderfynu faint i'w gymryd o'ch cynnyrch incwm hyblyg.

Treth y byddwch yn ei thalu

Rydych yn talu treth ar unrhyw arian a dynnwch y tu allan i'r cyfandaliad di-dreth. Bydd faint o dreth a dalwch yn dibynnu ar gyfanswm eich incwm a'r gyfradd (neu gyfraddau) o Dreth Incwm sy'n berthnasol i chi.

Bydd eich darparwr yn didynnu treth o'ch taliadau incwm ymlaen llaw o dan TWE (Talu Wrth Ennill). Gan na fyddant yn gwybod faint yw eich incwm cyffredinol, byddant yn defnyddio cod treth brys i ddechrau. Golyga hyn y gallech dalu gormod o dreth a gorfod hawlio'r arian yn ôl – neu efallai y bydd arnoch fwy o dreth os bydd gennych chi ffynonellau eraill o incwm.

Rhyddhad treth ar gynilion pensiwn y dyfodol

Os cymerwch arian trethadwy o gynnyrch incwm ymddeoliad hyblyg, byddwch yn cychwyn y lwfans blyneddol prynu arian (MPAA). Mae hyn yn lleihau'r swm y gallwch ei dalu i mewn i bensiwn cyfraniad diffiniedig a chael budd o ryddhad treth i £10,000 y flwyddyn (gweler t34). Os dymunwch barhau i ychwanegu at eich cronfa bensiwn, gall hyn ddylanwadu ar ba bryd y dechreuwch gymryd incwm ymddeol hyblyg.

Nid yw'r rhyddhad treth a gewch ar gyfer cynilion pensiwn yn y dyfodol yn cael ei effeithio os cymerwch y cyfandaliad di-dreth ond dim incwm.

Buddion

Gallai'r incwm a'r cyfandaliad a gewch – ac mewn rhai achosion, gwerth eich cronfeydd incwm ymddeoliad hyblyg sy'n weddill – effeithio ar eich hawl i fudd-daliadau nawr neu pan fyddwch yn heneiddio. I ddysgu sut all incwm neu gynilion effeithio ar fudd-daliadau'r Wladwriaeth ewch i **moneyhelper.org.uk/cy/benefits/problems-with-benefits/how-do-savings-and-lump-sum-pay-outs-affect-benefits**.

Beth sy'n digwydd pan fyddwch yn marw

Hyd at 5 Ebrill 2027, fel arfer ni fydd unrhyw arian ar ôl yn eichcynnyrch incwm hyblyg yn cael ei gyfrif wrth gyfrifo Treth Etifeddiant. Nodir y rheolau Treth Incwm ar gyfer buddiolwyrisod.

Os byddwch yn marw cyn eich bod yn 75 oed:

Bydd unrhyw ran o'ch cronfa bensiwn sy'n weddill yn trosglwyddo'n ddi-dreth i'ch buddiolwr enwebedig, ar yr amod bod yr arian yn cael ei dalu o fewn dwy flynedd i'r darparwr ddod yn ymwybodol o'ch marwolaeth. Fel arfer telir Treth Incwm ar gyfandaliadau dros y cyfandaliad a lwfans budd-dal marwolaeth (LSDBA). Mae'r LSDBA yn £1,073,100 ar gyfery rhan fwyaf o bobl.

Os yw'n cael ei dalu wedi'r terfyn dwy flynedd, ychwanegir yr arian at incwm arall y buddiolwr a'i drethu ar y gyfradd briodol.

Os byddwch yn marw yn 75 oed neu hŷn:

Bydd eich buddiolwyr fel arfer yn talu Treth Incwm ar unrhyw gyfandaliad neu incwm a gânt.

Chwilio o gwmpas

Mae cynhyrchion incwm ymddeoliad hyblyg yn gymhleth i'w cymharu gan fod y dewis yn helaeth a bydd yr hyn sydd orau i chi'n dibynnu ar lawer o ffactorau.

Dyna pam efallai y byddwch am ystyried cael cyngor ariannol rheoledig. Os na chymerwch gyngor a'ch bod yn cael cynnyrch anaddas yn y pen draw, mae'n annhebygol y byddwch yn gallu gwneud cwyn. Neu gallwch ddefnyddio ein hoffer yn Llwybrau Buddsoddi i chwilio yn **moneyhelper.org.uk/cy/frifiannell-tynnu-lawr-pensiwn**.

Cymryd eich cronfa bensiwn fel nifer o gyfandaliadau

Gallwch adael eich arian yn eich cronfa bensiwn a chymryd cyfandaliadau ohono pan fyddwch chi angen gwneud hynny, nes bydd eich arian yn dod i ben neu y byddwch yn dewis opsiwn arall. Gelwir pob cyfandaliad a gymerwch yn Cyfandaliad Pensiwn Cronfeydd Heb eu Crisialu (UFPLS).

Sut mae'n gweithio

Rydych yn cymryd arian parod o'ch cronfa bensiwn yn ôl yr angen ac yn gadael y gweddill wedi'i fuddsoddi'n ddi-dreth.

Ar gyfer pob codiad arian parod, fel arfer bydd 25% yn ddi-dreth ac mae'r gweddill yn drethadwy (gweler t23).

Efallai y codir ffioedd bob tro y tynnwch arian allan a/neu gyfyngiad ar sawl gwaith gewch chi dynnu arian allan bob blwyddyn.

Yn wahanol i'r opsiwn incwm ymddeoliad hyblyg (gweler t19), nid yw'ch cronfa yn cael ei hail-fuddsoddi'n awtomatig i gronfeydd newydd a ddewiswyd yn benodol i dalu incwm rheolaidd i chi. Ond gallwch newid eich dewis buddsoddi os dymunwch. Mae'n syniad da adolygu'ch dewis buddsoddi yn rheolaidd i wneud yn siŵr bod eich arian sy'n weddill yn cyfateb i'ch cynlluniau ymddeol a faint o risg rydych yn fodlon ei chymryd. Fel gyda phob buddsoddiad, gallai gwerth eich cronfeydd fynd i fyny neu i lawr.

Pethau i'w hystyried

Yn gyffredinol ni fydd yr opsiwn hwn yn darparu incwm rheolaidd i chi.

Bydd eich cronfa bensiwn yn lleihau bob tro y tynnir arian allan ohoni. Po gynharaf y byddwch yn dechrau cymryd arian allan, y mwyaf yw'r risg y gallai'ch arian redeg allan. Neu, ni fydd yr hyn sy'n weddill yn tyfu'n ddigonol i gynhyrchu'r incwm sydd ei angen arnoch i bara i henaint. Cofiwch – rhaid i'ch cronfa bensiwn ariannu nid yn unig eich anghenion ar y pryd ond eich treuliau i'r dyfodol yn ogystal.

Gallai'r ffioedd weinyddu ar gyfer pob tro y tynnir arian allan leihau'r swm sy'n weddill yn eich cronfa – gwiriwch faint yw'r ffioedd hyn.

Gall gwerth buddsoddiadau'r gronfa ostwng mewn gwerth – gan ychwanegu ymhellach at y perygl y bydd yr arian yn dod i ben. Adolygwch werth eich cronfa a'ch taliadau'n rheolaidd i benderfynu a oes angen i chi symud neu ailfuddsoddi'ch arian.

Bydd yr arian a adewch yn eich cronfa bensiwn yn parhau i gael ei fuddsoddi. Unwaith y byddwch yn ei dynnu, bydd yn cael ei ychwanegu at eich incwm arall (fel Pensiwn y Wladwriaeth, budd-daliadau, cyflog) ac yn cael ei drethu. Os llwyddwch i ledaenu'r arian a gymerwch dros nifer o flynyddoedd treth, a chadw cyfanswm eich incwm o dan y trothwy cyfradd treth sylfaenol, fe dalwch lai o dreth. Gall cymryd symiau mawr ar yr un pryd wthio cyfanswm eich incwm i mewn i fand treth uwch.

Os ydych chi'n bwriadu tynnu arian o'ch pensiwn i dalu dyledion, gwiriwch y dewisiadau eraill sydd ar gael yn gyntaf. Efallai bod ffyrdd gwell na defnyddio eich cynilion pensiwn.

I gael gwybod ble i gael cyngor am ddim ar ddyledion defnyddiwch ein Hofferyn canfod cyngor ar ddyledion yn moneyhelper.org.uk/cy/debt.

Treth y byddwch yn ei thalu

Fel arfer, mae tri chwarter (75%) o bob swm o arian a dynnir yn cyfrif fel incwm trethadwy.

Gallai hyn gynyddu'ch cyfradd dreth wrth ei ychwanegu at eich incwm arall. Bydd faint o dreth a dalwch yn dibynnu ar gyfanswm eich incwm a'r gyfradd (neu gyfraddau) o Dreth Incwm sy'n berthnasol i chi.

Eich cynllun pensiwn Bydd eich cynllun pensiwn neu ddarparwr yn talu'r arian a chymryd y dreth i ffwrdd ymlaen llaw – sef TWE (Talu wrth Ennill). Gan na fyddant yn gwybod faint yw eich incwm cyffredinol, byddant yn defnyddio cod treth brys i ddechrau. Golyga hyn y gallech dalu gormod o dreth a gorfod hawlio'r arian yn ôl – neu efallai na fyddwch wedi talu digon o dreth os bydd gennych chi ffynonellau eraill o incwm.

Fel arfer gallwch gymryd hyd at 25% o bob un o'ch pensynau yn ddi-dreth, ar yr amod bod y cyfanswm yn llai na'r lwfans cyfandaliad (LSA). Yr LSA yw £268,275 ar gyfer y rhan fwyaf o bobl (gweler t33).

Rhyddhad treth ar gynilion pensiwn y dyfodol

Os cymerwch arian o gynnyrch incwm ymddeoliad hyblyg, efallai y byddwch yn sbarduno'r lwfans blynyddol prynu arian (MPAA). Mae hyn yn lleihau'r swm y gallwch ei dalu i mewn i pensiwn cyfraniad diffiniedig a chael budd o ryddhad treth i £10,000 y flwyddyn (gweler t34). Os ydych am barhau i gynilo i mewn i pensiwn yna efallai na fydd yr opsiwn hwn yn addas.

Pwyntiau allweddol

- Gyda'r opsiwn hwn, nid yw'ch arian parod di-dreth i gyd yn cael ei dalu ymlaen llaw, yn hytrach mae chwarter pob cyfandaliad a gewch yn ddi-dreth.
- Gallai'r cronfeydd y mae eich cronfa bresennol wedi'i fuddsoddi ynddynt ostwng mewn gwerth a gallech redeg allan o arian cyn i chi farw.
- Fel arfer, mae tri chwarter (75%) o bob swm o arian a dynnir yn cyfrif fel incwm trethadwy. Felly, gallai cymryd symiau mawr o arian gynyddu eich cyfradd dreth.

Buddion

Gall cymryd cyfandaliadau mewn arian leihau eich hawl i gael budd-daliadau'r wladwriaeth yn awr neu wrth i chi fynd yn hŷn. I ddysgu sut all incwm neu gynilion effeithio ar fudd-daliadau'r Wladwriaeth ewch i moneyhelper.org.uk/sut-mae-incwm-yn-effeithio-budd-daliadau.

Beth sy'n digwydd pan fyddwch yn marw

Hyd at 5 Ebrill 2027, ni fydd unrhyw arian sydd ar ôl yn eich cronfa bensiwn fel arfer yn cael ei gyfrif wrth gyfrifo Treth Etifeddiant. Nodir y rheolau Treth Incwm i fuddiolwyr isod.

Os byddwch yn marw cyn eich bod yn 75 oed:

- bydd unrhyw ran heb ei chyffwrdd o'ch cronfa bensiwn yn trosglwyddo yn ddi-dreth i'ch buddiolwr a enwebwyd, cyn belled ag y telir yr arian o fewn dwy flynedd i'r darparwr gael gwybod am eich marwolaeth. Os bydd eich buddiolwyr yn dewis cymryd cyfandaliadau, maent yn ddi-dreth hyd at y cyfandaliad a'r lwfans budd-dal marwolaeth (LSDBA). Mae'r LSDBA yn £1,073,100 i'r rhan fwyaf o bobl. Os yw'n cael ei dalu wedi'r terfyn dwy flynedd, ychwanegir yr arian at incwm arall y buddiolwr a'i drethu ar y gyfradd briodol.

Os byddwch yn marw yn 75 oed neu hŷn:

- bydd unrhyw ran o'ch cronfa bensiwn rydych yn ei drosglwyddo ymlaen – un ai fel cyfandaliad neu fel incwm – yn cael ei ychwanegu at incwm cyffredinol y buddiolwr ac yn cael ei threthu ar y gyfradd Treth Incwm briodol.

Chwilio o gwmpas

Nid yw pob darparwr neu gynllun pensiwn yn cynnig y gallu i dynnu eich cronfa bensiwn yn ôl fel nifer o gyfandaliadau. Os ydych chi eisiau'r opsiwn hwn, bydd angen i chi ystyried trosglwyddo'ch arian i gynllun gwahanol. Cymharwch wahanol ddarparwyr bob amser gan fod costau a chyfyngiadau'n amrywio.

Gall cynghorydd ariannol rheoledig roi cyngor a chymorth i chi chwilio o gwmpas (gweler t7). Efallai y bydd rhai darparwyr hefyd yn gallu rhoi cyngor i chi, ond gwiriwch a ydyn nhw ond yn gallu argymhell eu cynhyrchion eu hunain.

Gallwch gwyno os cewch gyngor gwael a bod y cynnyrch yn anaddas.

Cymryd eich cronfa bensiwn mewn un taliad

Os nad ydych am gael incwm rheolaidd o'ch pensiwn, gallwch ddewis cymryd eich holl gynilion pensiwn mewn un taliad. Os nad ydych am gael incwm rheolaidd o'ch pensiwn, gallwch ddewis cymryd eich holl gynilion pensiwn mewn un taliad.

Sut mae'n gweithio

Golyga hyn y byddwch yn cau'ch cronfa bensiwn a thynnu'r cyfan allan fel arian parod. Fel arfer, byddai'r 25% (chwarter) cyntaf yn ddi-dreth a'r gweddill yn drethadwy.

Pethau i'w hystyried

Ni fydd yr opsiwn hwn yn rhoi incwm rheolaidd i chi, nag i unrhyw ddibynnydd wedi i chi farw. Er mwyn deall y risgiau yn well, gallwch gael apwyntiad Pension Wise am ddim (gweler t4) neu gael cyngor ariannol (gweler t7).

Mae beth bynnag sy'n weddill ar ôl i chi gymryd eich arian parod di-dreth yn drethadwy, felly gallai eich cyfradd dreth godi pan fydd yr arian yn cael ei ychwanegu at eich incwm arall.

Os dewiswch yr opsiwn hwn ni allwch newid eich meddwl – felly rhaid i chi fod yn bendant bod hyn yn addas i chi. I nifer o bobl byddai'n fwy cost effeithiol o ran treth i fynd am un o'r dewisiadau eraill.

Os mai eich bwriad yw defnyddio'ch pensiwn i glirio dyledion, prynu gwyliau, neu brynu rhywbeth drud, meddylwch yn ofalus cyn ymrwymo i'r opsiwn hwn. Bydd hynny'n lleihau'r arian y bydd gennych i fyw arno yn eich ymddeoliad, a gallech wynebu bil treth sylweddol.

Os cawsoch gyfran o bensiwn cyn-briod neu gyn-bartner sifil yn sgil ysgariad, efallai na allwch chi gymryd yr opsiwn hwn gyda'r gronfa bensiwn honno. Gwiriwch gyda'ch cynllun pensiwn neu'ch darparwr.

Efallai y bydd ffioedd yn daladwy am dynnu'r holl arian o'ch cronfa. Gwiriwch gyda'ch cynllun pensiwn neu'ch darparwr.

Nid yw pob cynllun a darparwr pensiwn yn cynnig y dewis hwn, ac i gael mynediad at eich arian efallai y bydd angen i chi drosglwyddo i gynllun neu ddarparwr arall sydd yn ei gynnig yn gyntaf. Fodd bynnag, mae hyn yn debygol o arwain at daliadau ac efallai y byddwch yn ildio buddion gwerthfawr.

Treth y byddwch yn ei thalu

Fel arfer, bydd 25% yn ddi-dreth a bydd y gweddill yn cael ei drin fel incwm trethadwy. Efallai y gallwch gymryd mwy na 25% yn ddi-dreth, mewn rhai achosion – holwch eich darparwr pensiwn. Bydd faint o dreth a dalwch yn dibynnu ar gyfanswm eich incwm a'r gyfradd (neu gyfraddau) o Dreth Incwm sy'n berthnasol i chi.

Mae risg uchel y gallai rhan o'ch incwm syrthio i gyfradd dreth uwch gyda'r opsiwn hwn gan y bydd cyfanswm eich incwm cyfan ar gyfer y flwyddyn yn cynyddu.

Bydd eich cynllun pensiwn neu ddarparwr yn talu'r arian a chymryd y dreth i ffwrdd ymlaen llaw – sef TWE (Talu wrth Ennill). Gan na fyddant yn gwybod faint yw eich incwm cyffredinol, byddant yn defnyddio cod treth brys i wneud hyn. Golyga hyn y gallech dalu gormod o dreth a gorfod hawlio'r arian yn ôl – neu efallai na fyddwch wedi talu digon o dreth os bydd gennych chi ffynonellau eraill o incwm.

Yr uchafswm o arian parod di-dreth y gallwch ei gymryd o'ch holl bensiynau yw £268.275 ar gyfer y rhan fwyaf o bobl. Gelwir hyn yn lwfans cyfandaliad (LSA). Byddwch fel arfer yn talu Treth Incwm ar unrhyw swm dros y lwfans.

Os cymerwch bensiwn sy'n werth llai na £10,000 ar yr un pryd, fel arfer nid yw'n cael ei gyfrif gan yr LSA.

Gweler *lwfans cyfandaliad* (t33).

Rhyddhad treth ar gynilion pensiwn y dyfodol

Os byddwch yn cyfnewid cronfa bensiwn gwerth £10,000 neu fwy, byddwch yn cychwyn y lwfans blynyddol prynu arian (MPAA). Mae hyn yn lleihau'r swm y gallwch ei dalu i mewn i bensiwn cyfraniad diffiniedig a chael budd o ryddhad treth i £10,000 y flwyddyn (gweler t34).

Os oes gennych chi gronfeydd pensiwn gwerth llai na £10,000, efallai y gallwch eu cymryd o dan reolau gronfeydd bach. Mae hyn yn golygu na fyddwch yn sbarduno'r MPAA.

Os oes gennych bedair neu fwy o gronfeydd pensiwn gwerth £10,000 neu lai yr ydych yn eu sefydlu eich hun, dim ond tri ohonynt y gallwch eu cymryd fel taliadau cronfa fach.

Gallwch gyfnewid cymaint o bensiynau gweithle ag y dymunwch dan reolau potiau bach.

Buddion

Gallai cymryd swm mawr o arian parod leihau'r gobaith sydd gennych o fedru hawlio budd-daliadau'r wladwriaeth yn awr neu wrth i chi fynd yn hŷn – er enghraifft i'ch helpu gyda'ch gofal hirdymor. I ddysgu sut all incwm neu gynilion effeithio ar fudd-daliadau'r Wladwriaeth ewch i moneyhelper.org.uk/sut-mae-incwm-yn-effeithio-budd-daliadau.

Beth sy'n digwydd pan fyddwch yn marw

Pa bynnag oed fyddwch chi pan fyddwch chi farw, bydd unrhyw arian neu fuddsoddiadau sy'n weddill a brynwyd ag arian a gymerwyd o'ch cronfa bensiwn, yn cyfrif fel rhan o'ch ystâd ar gyfer Treth Etifeddiaeth. Hyd at Ebrill 2027, ni fyddai unrhyw ran o'ch cronfa na wariwyd yn atebol fel arfer.

Cymysgu eich opsiynau

Nid yw'n ofynnol i chi ddewis un opsiwn – gallech ddewis yr hwn a'r llall fel y mynnwch dros gyfnod o amser neu dros gyfanswm eich cronfa bensiwn, beth bynnag sy'n gweddu i chi. Gallwch hefyd barhau i gynilo i mewn i bensiwn os dymunwch hynny, a chael gostyngiad treth hyd at 75 oed.

Sut mae'n gweithio

Bydd pa opsiwn neu gyfuniad sy'n iawn i chi yn dibynnu ar:

- pa bryd y byddwch yn gorffen gweithio neu yn lleihau'ch oriau
- eich amcanion o ran incwm a'ch agwedd tuag at risg
- eich oed a chyflwr eich iechyd
- maint eich cronfa bensiwn a chynilion eraill a faint o Bensiwn y Wladwriaeth y mae gennych hawl iddo
- unrhyw bensiwn neu gynilion eraill sydd gan eich priod neu'ch partner, os yw hynny'n berthnasol
- yr effaith bosibl ar eich hawl i gael budd-daliadau'r Wladwriaeth
- a oes gennych chi ddibynyddion ariannol
- a yw'ch amgylchiadau'n debygol o newid yn y dyfodol.

Bydd apwyntiad Pension Wise am ddim yn esbonio eich holl opsiynau (gweler t4).

Dyrannu cronfeydd wrth gymysgu opsiynau

Wrth gymysgu opsiynau efallai y byddwch yn:

- defnyddio gwahanol rannau o un gronfa ar gyfer mwy nag un opsiwn
- defnyddio cronfeydd ar wahân ar gyfer opsiynau unigol
- cyfuno cronfeydd llai cyn dewis un opsiwn neilltuol.

Ni fydd pob darparwr yn gadael i chi ddefnyddio eich cronfa ar gyfer mwy nag un opsiwn – efallai y bydd angen i chi drosglwyddo i ddarparwr arall er mwyn gwneud hyn.

Os oes gennych chi nifer o gronfeydd, rydym yn awgrymu i chi gael cyngor ariannol ynglŷn â sut fyddai'r fordd orau i'w defnyddio. Gall cyngorwr ddweud wrthydd chi hefyd dan ba amgylchiadau y dylid cyfuno cronfeydd.



Ni fydd pob cynllun a darparwr pensiwn yn cynnig pob opsiwn – ond mae'r dewis gennych o hyd.

Enghreifftiau

Os oes gennych chi un cronfa bensiwn, fe allech chi:

- cymryd hyd at 25% yn ddi-dreth
- defnyddio rhai i brynu incwm gwarantedig am oes
- gadael y gweddill wedi'i fuddsoddi mewn tynnu pensiwn i lawr.

Os oes gennych chi fwy nag un cronfa bensiwn, fe allech chi:

- prynu incwm gwarantedig am oes gydag un
- cymryd arian pan fydd ei angen arnoch oddi wrth y llall.

Cyfandaliadau di-dreth wrth gymysgu opsiynau

Sylwch, yn ddibynol ar sut y defnyddiwyd eich arian o'ch cronfa bensiwn efallai mai un cyfle'n unig a gewch i gymryd eich swm yn ddi-dreth.

Er enghraifft, os byddwch yn symud eich holl bensiwn i mewn i dynnu i lawr fel y gallwch gymryd arian fel a phryd y dymunwch, dim ond pan fyddwch yn gwneud hyn gyntaf y gallwch gymryd swm di-dreth.

Os byddwch yn symud rhan o'ch cronfa i dynnu i lawr, gallwch gymryd hyd at 25% o'r swm hwnnw yn ddi-dreth. Os byddwch yn symud rhywfaint neu'r gweddill i dynnu i lawr yn ddiweddarach, gallwch gymryd hyd at 25% yn ddi-dreth bob tro.

Beth sy'n digwydd pan fyddwch yn marw

Mae'r un rheolau'n berthnasol ar gyfer trosglwyddo gweddill eich pensiwn ymlaen fel y nodwyd eisoes ar gyfer pob opsiwn.

Sut i adnabod sgamiau pensiwn a buddsoddiad

Mae achosion o sgamiau pensiwn a buddsoddiadau yn cynyddu yn y Deyrnas Unedig. Bob dydd mae twyllwyr yn defnyddio dulliau clyfar iawn o gael arian gan gynilwyr. Gwiriwch y ffeithiau cyn gwneud unrhyw benderfyniad sy'n amhosib i'w ddadwneud – gallwch golli cynilion oes mewn amrantiad.

Byddwch yn wiliadwrus yn enwedig os bydd rhywun yn cysylltu â chi ar hap neu o hysbysebion yn cynnig 'adolygiadau pensiwn am ddim', 'ymgynghoriadau heb rwymedigaeth', elw rhy uchelgeisiol neu ffyrdd i osgoi talu treth.

Hefyd, gwyliwch am addewidion i gael mynediad i'ch cronfa bensiwn o dan 55 oed – a elwir weithiau yn 'ryddhau pensiwn' neu 'fenthyciadau pensiwn'. Dim ond mewn achosion prin iawn y gallwch wneud hynny yn gyfreithiol – er enghraifft os ydych chi mewn iechyd gwael – felly peidiwch â chredu'r bobl hyn – felly peidiwch â'u credu. Y nod yw eich perswadio i gyfnwid eich cronfa bensiwn am arian parod a rhoi'r arian i sgamwyr i'w fuddsoddi.

Gall rhai cwmnïau fod yn soffistigedig iawn gyda gwefannau argyhoeddiadol. Gallai rhai awgrymu eu bod yn rhan o wasanaeth Pension Wise y llywodraeth neu'r Gwasanaeth Cyngori ar Bensiynau drwy gynnwys y termau 'pension' 'wise', neu 'arweiniad' yn eu henwau.

Gallai sgamwyr:

- geisio'ch perswadio i gymryd eich cronfa bensiwn gyfan fel arian parod – neu gyfandaliad mawr – a gadael iddyn nhw ei fuddsoddi ar eich rhan, yn aml mewn buddsoddiadau heb eu rheoleiddio (sy'n golygu nad oes gennych unrhyw ddiogelwch os aiff pethau o chwith)
- addo arbedion treth ychwanegol a/neu enillion sylweddol iawn wrth fuddsoddi dramor neu fuddsoddiadau newydd neu 'greadigol'
- dweud y gallant roi cymorth i chi neu rywun arall gael mynediad at eich pensiwn cyn eich bod yn 55 oed, er enghraifft drwy drosglwyddo i gynllun pensiwn arall.

Unwaith y byddwch wedi trosglwyddo'ch pensiwn neu'ch cyfandaliad, gall fod yn rhy hwyr. Mae amryw o ddioddefwyr wedi colli'r cyfan o'u cynilion pensiwn yn sgil twyll. Gallech hefyd wynebu bil treth mawr.

Ni fydd gwasanaethau a gefnogir gan y llywodraeth fel HelpwrArian a Pension Wise byth yn cysylltu â chi yn ddirybudd. Rhowch y ffôn i lawr os byddwch yn derbyn galwad annisgwyl a gwiriwch bob amser bod gennych y wefan gywir.

Sut i adnabod sgam

Yn ogystal â'r pwyntiau uchod, cadwch lygad am un neu ragor o'r nodweddion sgamiau canlynol:

- rhywun yn cysylltu â chi yn annisgwyl dros y ffôn neu trwy neges destun neu yn bersonol ar stepen eich drws
- pan nad ydych yn cael llawer o amser i wneud penderfyniad neu'n teimlo dan bwysau i wneud un ar unwaith
- yr unig fanylion cyswllt a gewch ganddynt yw ar eu gwefan neu rif ffôn symudol a chyfeiriad blwch post
- pan nad yw'r cwmni'n dymuno nac yn caniatáu i chi ei ffonio'n ôl

i gael rhagor o wybodaeth am sgamiau pensiwn, ewch i **thepensionsregulator.gov.uk/pension-scams**.

Gwiriwch bob amser fanylion unrhyw un sy'n cysylltu â chi

Mae'r gyfraith yn gofyn i bob cwmni sy'n darparu cynnyrch neu gyngor ariannol wedi'i reoleiddio gofrestru gyda'r Awdurdod Gwasanaethau Ariannol (FCA) i gyflawni busnes.

- Os ydych yn ansicr ynghylch cwmni sydd wedi cysylltu â chi, defnyddiwch gofrestr ar-lein yr FCA i wirio a yw cwmni wedi'i gofrestru yn **fca.org.uk/register** neu ffoniwch nhw ar **0800 111 6768**.

Gwiriwch y ffeithiau cyn i chi wneud unrhyw benderfyniad. Cofiwch y gallech golli'ch cynilion oes.

Os ydych chi'n meddwl eich bod

chi'n cael eich targedu

- Peidiwch â chael eich brysio i wneud penderfyniad. Cyn i chi lofnodi unrhyw beth, cysylltwch â ni ar **0800 011 3797**.
- Gwnewch yn siŵr fod y cynghorwr wedi'i gofrestru gyda'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA) cyn i chi gytuno i unrhyw beth.
- Gwiriwch dudalennau gwefan Scamsmart yr FCA yn **fca.org.uk/scamsmart** – byddant yn dweud wrthyh enwau sgamiau cynllun buddsoddi hysbys ac yn eich galluogi i wirio a yw cwmni yn ymddangos ar eu rhestr rybuddio.

Os ydych wedi derbyn cynnig neu wedi colli arian

- Os ydych eisoes wedi arwyddo rhywbeth yr ydych yn ansicr yn ei gylch, cysylltwch â'ch darparwr pensiwn ar unwaith. Efallai y byddant yn gallu atal trosglwyddiad nad yw wedi digwydd eto. Yna ffoniwch Action Fraud ar **0300 123 2040** i'w riportio
- Os ydych chi eisoes wedi cael eich sgamio, gallwch ffonio Uned Troseddau Ariannol a Sgamiau HelpwrArian ar **0800 015 4402**.

Awgrym da

Os ydych chi'n meddwl eich bod wedi bod yn ddioddewfwr sgam pensiwn, rydych chi'n gallu trefnu apwyntiad gyda'n Gwasanaeth Apwyntiadau Colli Pensiwn trwy e-bostio **virtual.appointments@moneyhelper.org.uk**

Egluro'r jargon

Incwm addasedig

Eich incwm blynyddol cyn treth a gwerth eich cyfraniadau pensiwn chi a'ch cyflogwr.

Lwfans Blynyddol Amgen

Y terfyn ar faint o arian di-dreth y gallwch ei Gronni mewn pensiwn Buddion wedi'u Diffinio mewn unrhyw flwyddyn unwaith y byddwch wedi ysgogi'r lwfans blynyddol prynu arian. Y lwfans blynyddol amgen ar gyfer pobl sy'n cyfrannu £10,000 y flwyddyn i bensiwn â chyfraniadau wedi'u diffinio yw £50,000 ond gall fod yn swm llai os yw'r *Lwfans blynyddol graddedig* (gweler tudalen 35) yn gymwys ar gyfer y flwyddyn dreth dan sylw.

Gweler hefyd *Pensiynau â Buddion wedi'u Diffinio a Lwfans Blynyddol Prynu Arian* (t34).

Lwfans blynyddol

Y terfyn ar faint o arian di-dreth y gallwch ei Gronni yn eich pensiwn mewn un flwyddyn yn seiliedig ar eich cyfraniadau chi a chyfraniadau'ch cyflogwr, ac unrhyw gyfraniadau a wneir ar eich rhan gan rywun arall. Y lwfans blynyddol yw £60,000 ar gyfer y rhan fwyaf o bobl.

Mae'r lwfans blynyddol yn berthnasol ar draws eich holl gynilion pensiwn, nid fesul cynllun. Os ewch dros y Lwfans Blynyddol, codir taliad treth sydd yn adennill unrhyw ostyngiad treth a roddwyd ar y cychwyn. Gweler hefyd *Lwfans blynyddol prynu arian* (t34).

Os yw eich enillion trethadwy yn ystod y flwyddyn yn is na'r lwfans blynyddol yna mae gostyngiad treth ar eich cyfraniadau pensiwn wedi'i gyfyngu i 100% o'ch enillion (neu i £3,600 os nad oes gennyh enillion).

Os yw eich incwm addasedig yn uwch na £260,000 mae'r Lwfans Blynyddol yn cael ei leihau'n raddol, neu ei 'dapro'.

Gweler *Incwm addasedig a Lwfans blynyddol graddedig*.

Blwydd-dal

Cynnyrch ariannol sy'n cynnig incwm rheolaidd gwarantedig yn gyfnewid am gyfandaliad a gymerir o gronfa bensiwn fel arfer. Gall yr incwm fod yn warantedig am eich oes gyfan neu am gyfnod penodol. Gweler hefyd *Blwydd-dal oes*, *Blwydd-dal cyfnod penodol* a *Blwydd-dal cysylltiedig â buddsoddiad*.

Pensiwn balans arian

Trefniant pensiwn pan fydd eich cyflogwr yn addo cronfa bensiwn i chi o swm penodol, pan gyrhaedddech oed ymddeol. Fel arfer, cyfrifir y swm fel cyfran o'ch cyflog ar gyfer pob blwyddyn o'ch gwasanaeth.

Rydych yn gwybod beth fydd swm eich cronfa, ond nid oes addewid ynghylch y swm o bensiwn y cewch ei brynu (neu ei gymryd) ohoni.

Pensiwn buddion wedi'u diffinio

Cynllun pensiwn sydd yn talu incwm ymddeol yn seiliedig ar eich cyflog terfynol ac ers pryd y buoch yn gweithio i'ch cyflogwr. Mae pensiynau â buddion wedi'u diffinio, yn cynnwys cynlluniau pensiwn 'cyflog terfynol' a 'chyfartaledd gyrfa'. Yn gyffredinol mae ar gael gan gynlluniau pensiwn gweithle hyn neu sector cyhoeddus yn unig bellach.

Pensiwn Cyfraniadau wedi'u Diffinio

Cynllun pensiwn sydd yn cronni cronfa i dalu incwm ymddeol i chi yn seiliedig ar gyfraniadau gennych chi ac/neu'ch cyflogwr. Rhoddir eich cronfa i mewn i amryw o wahanol fuddsoddiadau, gan gynnwys cyfranddaliadau. Mae'r cyfanswm sydd yn sefyll yn eich cronfa bensiwn wrth i chi ymddeol yn dibynnu ar faint a dalwyd i mewn, a pherfformiad y buddsoddiadau. Gelwir hefyd yn gynlluniau 'prynu arian'. Yn gynnwys pensiynau gweithle a phersonol, gan gynnwys pensiynau rhanddeiliaid. Gallai gael ei redeg trwy gwmni yswiriant neu ddarparwr ymddiriedolaeth meistr, neu drwy gynllun penodol a sefydlwyd gan eich cyflogwr.

Tynnu arian i lawr

Gweler *Cynnyrch Incwm Ymddeol Hyblyg*.

Blwydd-dal cyfnod penodol

Cynnyrch incwm ymddeol sy'n gwarantu incwm rheolaidd am gyfnod penodol – fel arfer 5 neu 10 mlynedd ond gall fod yn hirach – ac yn talu 'swm aeddfedu' ar y diwedd.

Cynghorydd ariannol

Gweler *Cynghorydd ariannol rheoledig*.

Pensiwn cyflog terfynol

Gweler *Pensiwn buddion wedi'u diffinio*

Cynnyrch Incwm Ymddeol Hyblyg

Yn hysbys yn fwy cyffredin fel 'tynnu incwm i lawr' neu 'dynnu pensiwn i lawr'. Mae hyn yn caniatáu i chi ddefnyddio'ch cronfa bensiwn i ddarparu incwm ymddeoliad rheolaidd drwy ei ail-fuddsoddi mewn cronfeydd sydd wedi'u cynllunio a'u rheoli'n benodol at y diben hwn. Nid yw'r incwm wedi'i warantu am oes, ond mae gennych yr hyblygrwyd

i wneud newidiadau i faint rydych chi am ei gymryd neu i newid i gynyrrch incwm ymddeol mwy diogel yn ddiweddarach.

Blwydd-dal hyblyg sy'n gysylltiedig â buddsoddiadau

Mae'n talu incwm ymddeol rheolaidd am oes a allai godi a gostwng yn unol â buddsoddiadau sylfaenol, ond ble mae isafswm taliad misol wedi ei warantu am oes. Mae hyn yn eich galluogi i ddewis a newid symiau taliadau misol, yn gynnwys dewis taliadau is yn hwyrach yn eich bywyd. Weithiau bydd hyn yn cael ei alw yn flwydd-dal amrywiol.

Cyfradd blwydd-dal a warrantir (GAR)

Incwm gwarantedig gwerthfawr sy'n aml yn cael ei gynnig gan eich cynllun neu ddarparwr pensiwn eich hun os ydych yn cymryd blwydd-dal oes gyda nhw. Yn debygol o fod yn anodd eu curo os ydych yn chwilio am y fargen orau.

Tynnu arian i lawr a warrantir

Cynnyrch hybrid sy'n cyfuno incwm a warrantir am oes gyda nodweddion cynnyrch incwm ymddeol hyblyg.

Cynnyrch hybrid

Cynnyrch sy'n cyfuno nodweddion blwydd-daliadau a chynnyrch incwm ymddeol hyblyg i ddarparu incwm ymddeol.

Tynnu incwm i lawr

Term a ddefnyddir yn aml i ddisgrifio cymryd eich pensiwn fel 'cynnyrch incwm ymddeol hyblyg' neu 'dynnu pensiwn i lawr'.

Cyfraddau Treth Incwm

Rhennir Treth Incwm yn fandiau, yn seiliedig ar gyfanswm eich incwm. Gweler gov.uk/cyfraddau-treth-incwm neu gov.uk/scottish-income-tax am fanylion llawn.

Chwyddiant

Cynnydd yn lefel cyffredinol prisiau nwyddau a gwasanaethau.

Blwydd-dal cysylltiedig â buddsoddiadau

Cynnyrch incwm ymddeol sy'n gwarantu taliad am oes ond nid swm penodol – bydd taliadau yn codi a gostwng yn unol â gwerth y buddsoddiadau sylfaenol. Gellir gwarantu isafswm incwm misol os yw perfformiad yn wan.

Lwfans Gydol Oes

Hyd at 5 Ebrill 2024, y cyfanswm y gallech ei gynilo mewn pensiynau yn ystod eich oes tra'n dal i gael rhyddhad treth, sef £1,073,100 ar hyn o bryd. Pe baech yn mynd dros y lwfans byddech yn talu treth LTA ar y swm dros ben wrth gymryd arian o'ch pensiwn naill ai drwy sefydlu incwm rheolaidd neu gymryd cyfandaliadau. Ar gyfer 2023/24, codwyd mwy na'r lwfans oes ar 0%. Fodd bynnag, bydd Treth Incwm i'w thalu ar eich cyfradd ymylol o hyd.

Blwydd-dal oes

Cynnyrch incwm ymddeol sy'n gwarantu incwm ymddeol rheolaidd am weddill eich bywyd. Gall incwm barhau i fod yn sefydlog, fod yn gysylltiedig i chwyddiant neu godi'n raddol ar gyfraddau sefydlog, yn ddibynnol ar pa nodweddion a ddewiswch. Mae hyn yn cynnwys yr opsiwn i ddarparu ar gyfer cymar, partner sifil neu ddibynnydd am oes wedi i chi farw yn gyfnewid am incwm is.

Lwfans cyfandaliad (LSA)

Uchafswm yr arian parod di-dreth y gallwch ei gymryd o'ch holl bensiynau yn ystod eich oes. I'r rhan fwyaf o bobl, mae hyn yn £268,275.

Fel arfer byddwch yn talu Treth Incwm ar gyfandaliadau uwchlaw'r lwfansau.

Os yw cyfanswm eich cynilion pensiwn ar neu'n agos at lefel yr LSDBA, ystyriwch gael cyngor treth arbenigol gan gynghorwr ariannol rheoledig cyn cymryd unrhyw arian o'ch pensiwn.

Cyfandaliad a lwfans budd-dal marwolaeth (LSDBA)

Uchafswm yr arian parod di-dreth y gellir ei dynnu o'ch holl bensiynau – cyn ac ar ôl i chi farw. I'r rhan fwyaf o bobl, mae hyn yn £1,073,100. Gweler hefyd *Lwfans cyfandaliad*.

Gostyngiad gwerth y farchnad

Gostyngiad yn eich cronfa bensiwn allai fod yn berthnasol os yw eich cronfa bensiwn wedi ei buddsoddi mewn cronfa ar sail elw a'ch bod yn ei throsi i arian cyn neu ar ôl ei dyddiad aeddfedu neu ddyddiad(au) arall a nodir yn amodau a thelerau'r polisi.

Pensiwn prynu arian

Gweler *Pensiwn â Chyfraniadau wedi'u Diffinio*

Lwfans Blynnyddol Prynu Arian (MPAA)

Os dechreuwch gymryd arian allan o'ch pensiwn â chyfraniadau wedi'u diffiniedig, gall hyn sbarduno Lwfans Blynnyddol is o £10,000 a elwir yn Lwfans Blynnyddol Prynu Arian (MPAA). Mae hyn yn golygu mai'r uchafswm cyfraniadau o bob ffynhonnell y gellir eu talu i gynllun prynu arian neu gynllun pensiwn cyfraniadau diffiniedig ac sy'n dal i fod yn gymwys ar gyfer rhyddhad treth fydd £10,000 (yr MPAA ar gyfer blwyddyn dreth 2025/26). Mae rhyddhad treth ar eich cyfraniadau personol wedi'i gyfyngu i'ch enillion trethadwy, a all fod yn is.

Yn fras, y prif sefyllfa oedd lle byddwch yn achosi'r MPAA i ddod yn berthnasol fydd:

- os cymerwch eich cronfa gyfan fel cyfandaliad neu ddechrau cymryd cyfandaliadau ar hap o'ch cronfa pensiwn
- os rhowch arian yn eich cronfa pensiwn i mewn i gronfa incwm lle gallwch dynnu incwm ohoni'n hyblyg a dechrau gwneud hynny
- os prynwch flwydd-dal hyblyg neu'n gysylltiedig â buddsoddiad lle gallai'ch incwm ostwng
- os oes gennych chi gynllun tynnu arian i lawr wedi'i gapio a ddechreuodd cyn Ebrill 2015 ac rydych yn dechrau cymryd taliadau sy'n uwch na'r cap.

Ni fydd yr MPAA fel arfer yn cael eisbarduno os:

- rydych yn cymryd cyfandaliad di-dreth ac yn prynu blwydd-dal oes sy'n rhoi incwm gwarantedig am oes (sydd un ai'n aros fel y mae neu'n cynyddu)
- rydych yn cymryd cyfandaliad arian parod di-dreth ac yn rhoi eich cronfa pensiwn mewn cynnyrch tynnu incwm ond nid ydych yn cymryd unrhyw incwm ohono
- rydych yn cyfnewid un neu fwy o gronfeydd pensiwn bach gwerth llai na £10,000. (Yn berthnasol yn y rhan fwyaf o achosion).

Mae'r MPAA o £10,000 ond yn berthnasol i gyfraniadau i bensiynau â chyfraniadau wedi'u diffinio ac nid cynlluniau pensiwn â buddion wedi'u diffinio.

Lwfans cyngor ar bensiynau

Yn eich galluogi i dynnu £500 hyd at dair gwaith o'ch cronfa/cronfeydd pensiwn cyfraniadau wedi'u diffinio yn ddi-dreth, i fynd tuag at gost cyngor ar bensiynau neu ymddeol. Dim ond unwaith y gellir ei ddefnyddio o fewn blwyddyn dreth. Gellir ei ddefnyddio waeth beth yw eich oed a'i ad-dalu yn erbyn cost cyngor ariannol wedi ei reoleiddio naill ai wyneb yn wyneb, dros y ffôn neu ar-lein. Nid yw ar gael gyda chynlluniau buddion wedi'u diffinio, ond gellir ei ddefnyddio os oes gennych bensiwn 'hybrid' sydd ag elfen cyfraniadau wedi'u diffinio.

Cynghorydd ariannol rheoledig

Gweithiwr proffesiynol cymwys sydd wedi'i awdurdodi a'i reoleiddio gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA). Mae hyn yn golygu bod yn rhaid iddynt ddilyn eu rheolau wrth roi cyngor ariannol. Bydd yn argymhell cynnyrch ariannol wedi ystyried eich amgylchiadau ariannol a phersonol cyffredinol yn unig. Os gwelwch yn y pen

draw bod y cyngor a roddir i chi yn anaddas, gallwch wneud cwyn ac os oes angen fynd â'ch achos at Wasanaeth yr Ombwdsmon Ariannol.

Gall cynghorwyr ariannol annibynnol argymhell pob math o gynnyrch ariannol gan yr holl ddarparwyr. Mae cynghorwyr ariannol sy'n cynnig 'cyngor cyfyngedig' yn arbenigo mewn mathau neilltuol o gynnyrch ac/neu yn cyfyngu ar faint o gynnyrch gan ddarparwyr a ystyrir ganddynt.

Pensiwn y Wladwriaeth

Taliad rheolaidd gan y llywodraeth yr ydych yn gymwys ar ei gyfer pan gyrhaeddwch oedran Pensiwn y Wladwriaeth. Gwiriwch eich oedran Pensiwn y Wladwriaeth yn gov.uk/pensiwn-sylfaenol-y-wladwriaeth. Bydd y swm a gewch yn dibynnu ar eich cofnod Yswiriant Gwladol.

Lwfans blynyddol graddedig

Ar gyfer blwyddyn dreth 2025/26, mae'r lwfans blynyddol o £60,000 yn cael ei leihau neu ei 'dapro' os yw eich 'incwm wedi'i addasu' (eich incwm blynyddol cyn treth ynghyd â gwerth eich cyfraniadau pensiwn eich hun ac unrhyw gyfraniadau pensiwn cyflogwr) dros £260,000. Yn yr achos hwn, bydd y lwfans blynyddol yn gostwng £1 am bob £2 y mae eich incwm yn fwy na £260,000 i isafswm o £10,000. Os yw eich incwm blynyddol ar ôl treth a heb gynnwys cyfraniadau pensiwn yn llai na £200,000, ni fydd y gostyngiad taprog yn berthnasol fel arfer.

Mae'r lwfans blynyddol graddedig yn berthnasol i gynlluniau pensiwn cyfraniadau wedi'u diffinio a buddion wedi'u diffinio.

Cyfandaliad di-dreth

Swm o arian parod a osodir gan y gyfraith y gallwch ei gymryd yn ddi-dreth wrth ymddeol.

Fel arfer mae'n swm hyd at chwarter (25%) o'ch cronfa bensiwn er gall rhai polisïau ganiatáu i chi gymryd mwy – gwiriwch gyda ddarparwr eich polisi. Yr uchafswm arian parod di-dreth y gallwch ei gymryd yw £268,275 (oni bai eich bod wedi diogelu eich lwfans gydol oes yn flaenorol).

Weithiau cyfeirir ato'n syml fel 'arian parod di-dreth'.

Tystysgrif swm di-dreth trosiannol

Lle mae gennych bensiynau sy'n werth £1,073,100 neu'n agos atynt ac wedi cymryd arian o gronfa bensiwn hyd at 5 Ebrill 2024, mae'n bwysig gwirio cyn cymryd unrhyw arian pellach o'ch pensiynau a ddylech wneud cais am dystysgrif swm di-dreth trosiannol. Mewn rhai amgylchiadau, gall gynyddu faint o arian parod di-dreth y mae gennych hawlddo.

Cronfa bensiwn heb ei chrisialu

Cynllion pensiwn nad ydych wedi eu cyrchu mewn unrhyw ffordd.

Cyfandaliad cronfeydd pensiwn heb eu crisialu (UFPLS)

Swm arian parod a gymerir o gronfa bensiwn. Cyfeirir ato yn y llyfryn hwn fel 'nifer o gyfandaliadau'. Ar gyfer pob codiad, bydd 25% fel arfer yn ddi-dreth a bydd y gweddill yn cael ei drethu ar eich cyfradd dreth briodol.

Cysylltiadau defnyddiol

HelpwrArian

Mae HelpwrArian yn annibynnol ac yn cael ei gefnogi gan y llywodraeth i'ch helpu i wneud y gorau o'ch arian.

Rydym yn rhoi arweiniad arian a phensiynau diduedd am ddim i bawb ledled y DU – ar-lein a thros y ffôn.

Ymwelwch â ni yn
moneyhelper.org.uk/cy

Neu cysylltwch â ni ar:

Ffôn

Arweiniad ar arian
DU: **0800 138 7777**
os ydych y tu allan i'r DU
+44 20 3553 2279

Llun – Gwe 8am i 6pm

Arweiniad ar bensiynau
DU: **0800 011 3797**
os ydych y tu allan i'r DU
+44 20 7932 5780

Llun – Gwe 9am i 5pm

Gwe-sgwrs:

moneyhelper.org.uk/moneychat
moneyhelper.org.uk/cy/
pensions-chat

WhatsApp

+44 7701 342744
(arweiniad ar arian yn unig)

Cymunedau ar-lein

Ymunwch â'n grwpiau Facebook am gymorth: **moneyhelper.org.uk/cy/blog/everyday-money/come-and-join-our-online-communities**

Cwynion a iawndal

Gwasanaeth yr Ombwdsmon Ariannol

0800 023 4567
financial-ombudsman.org.uk/cymraeg

Cynllun Iawndal y Gwasanaethau Ariannol (FSCS)

0800 678 1100
fscs.org.uk

Yr Ombwdsmon Pensiynau

0800 917 4487
pensions-ombudsman.org.uk/cymraeg

Dod o hyd i gynghorydd ariannol

Cyfeirlyfr cynghorwyr ymddeoliad

Awdurdodir a rheoleiddir yr holl gynghorwyr a restrir i ddarparu cyngor gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA).

Defnyddiwch ein Cyfeiriadur Cynghorwyr Ymddeoliad ar-lein yn
moneyhelper.org.uk/cy/pensions-and-retirement/taking-your-pension/find-a-retirement-adviser

Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA)

I wirio Cofrestr yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol, neu i adrodd am hysbysebion ariannol camarweiniol neu hyrwyddiadau eraill.

Llinell gymorth defnyddwyr: 0800 111 6768
Typetalk (18001) 0207 066 1000
fca.org.uk/register

Gwybodaeth a chynghor am bensiynau

I gael manylion eich cynllun pensiwn gweithle, siaradwch â'ch cyflogwr neu ddarparwr pensiwn.

Pension Wise

Gwasanaeth am ddim gan HelpwrArian sy'n darparu arweiniad diduedd am eich opsiynau pensiwn cyfraniadau wedi'u diffinio.

0800 138 3944

moneyhelper.org.uk/sgwrs-pensiynau

I fod yn gymwys ar gyfer apwyntiad, mae'n rhaid i chi fod yn 50 oed neu fwy a bod gennych chi bensiwn â chyfraniadau wedi'u diffinio. Rydych hefyd yn gymwys os ydych o dan 50 oed gyda salwch neu gronfa bensiwn â chyfraniadau wedi'u diffinio a etifeddwyd.

- Mae'n llinellau archebu yn agored 8am i 8pm dydd Llun i ddydd Gwener.
- Byddwn yn anfon e-bost atoch chi i gadarnhau eich apwyntiad.

GOV.UK

Am wybodaeth ynglŷn â Phensiynau'r Wladwriaeth a sut i ddod o hyd i bensiwn coll.

Gwirio eich rhagolwg Pensiwn y Wladwriaeth
0800 731 0469

gov.uk/gwirio-eich-pensiwn-y-wladwriaeth

Hawlio eich Pensiwn y Wladwriaeth
0800 731 7898

gov.uk/pensiwn-sylfaenol-y-wladwriaeth

Oedi (gohirio) eich Pensiwn y Wladwriaeth
0800 731 7898

gov.uk/oedi-pensiwn-wladwriaeth

mylostaccount.org.uk
0800 731 0193

gov.uk/dod-o-hyd-i-fanylion-cyswllt-pensiwn

Angen mwy o help?

Dewch o hyd i gynghorydd ariannol gyda'n **Cyfeirlyfr cynghorwyr ymddeoliad**

Dim ond manylion cynghorwyr a reoleiddir y mae ein cyfeiriadur yn eu cynnwys – felly mae gennych dawelwch meddwl eich bod wedi'ch diogelu'n llawn. Dewiswch ddelio â'ch cynghorwr yn bersonol, dros y ffôn neu ar-lein.

Chi sydd i benderfynu.

Dewch o hyd i'ch cynghorydd ariannol yn **moneyhelper.org.uk/cy/pensions-and-retirement/taking-your-pension/find-a-retirement-adviser**





Cynhyrchir y canllaw hwn gan HelpwrArian ac mae hefyd ar gael yn Saesneg. I weld yr ystod llawn o ganllawiau sydd ar gael, ac i ofyn am gopïau, ewch i **moneyhelper.org.uk/cy/contact-us/free-printed-guides**

Cymraeg

Cysylltu â ni

Arweiniad ar arian **0800 138 7777**

Llun – Gwe 8am i 6pm

Arweiniad ar bensiynau **0800 011 3797**

Llun – Gwe 9am i 5pm

Gwasanaethau trosglwyddo testun

1800 10800 915 4622

Llun – Gwe 8am i 6pm

WhatsApp **+44 7701 342744**

Gwefan **moneyhelper.org.uk/cy**

**Helpwr
Arian**



Mae galwadau o'r DU am ddim. Er mwyn ein helpu i gynnal a gwella ein gwasanaeth, efallai y byddwn yn recordio neu fonitro galwadau.

Fformatau hygyrch

Os hoffech chi gael y canllaw hwn mewn Braille, print bras neu fformat sain, cysylltwch â ni ar y rhifau uchod. Gwybodaeth yn gywir ar adeg argraffu (Ebrill 2025). Adolygir y canllawiau hyn unwaith y flwyddyn.

© **HelpwrArian** Ebrill 2025

Cyf: YPYC_Apr25_Ed1_Welsh